



Addysg ac Ieuenctid

## Polisi Diogelu

Polisi enghreifftiol ar gyfer holl ddarpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd gan gynnwys ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD). Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull a'r ddarpariaeth ar gyfer diogelu dysgwyr yn Sir y Fflint.

|                                                      |                                             |
|------------------------------------------------------|---------------------------------------------|
| Dyddiad y rhoddwyd y polisi ar waith am y tro cyntaf | Medi 2017                                   |
| Dyddiad y diwygiad diwethaf                          | Tachwedd 2025                               |
| Fersiwn                                              | 6                                           |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf                           | Tachwedd 2026                               |
| Perchennog y ddogfen ar gyfer adolygu                | Ymgynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu |

|                                      |                                                                                                                                                                                                                                  |
|--------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ysgol                                | Gymraeg Mornant                                                                                                                                                                                                                  |
| Dyddiad cymeradwyo'r polisi          | Cymeradwywyd y polisi hwn gan Gorff Llywodraethu'r ysgol ar:                                                                                                                                                                     |
| Amllder adolygu                      | Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n <u>flynyddol</u> gan y Pennaeth, staff a llywodraethwyr, neu os yw'r ddeddfwriaeth yn newid neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a allai ddeillio o achosion neu honiadau. |
| Dyddiad adolygu                      | Tachwedd 2026.                                                                                                                                                                                                                   |
| Datganiad Cadeirydd y Llywodraethwyr | David Hytch                                                                                                                                                                                                                      |
| Datganiad y Pennaeth                 | Gwawr Closs-Griffiths                                                                                                                                                                                                            |

## Manylion Cyswllt

| Manylion Cyswllt Diogelu'r Ysgol         | Enw                   | Cyswllt                                                 |
|------------------------------------------|-----------------------|---------------------------------------------------------|
| Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD)         | Gwawr Closs-Griffiths | gppennaeth6@hwbcymru.net                                |
| Dirprwy Unigolyn Diogelu Dynodedig       | Samuel Pritchard      | Pritchards181@hwbcymru.net                              |
| Pennaeth                                 | Gwawr Closs-Griffiths | gppennaeth6@hwbcymru.net                                |
| Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu | Sioned Davies         | Drwy clerk y llywodraethwyr.<br>Dafydd.Watson@ymg.cymru |
| Cadeirydd y Llywodraethwyr               | David Hytch           | Drwy clerk y llywodraethwyr.<br>Dafydd.Watson@ymg.cymru |

## Manylion Cyswllt Allweddol Sir y Fflint

|                                                                                                                                           |                                                                                                     |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Gwasanaethau Plant - Drws Ffrynt</b>                                                                                                   | Oriau swyddfa: <b>01352 701000</b><br><br>Rhif ffôn y tu allan i oriau swyddfa: <b>0845 0533116</b> |
| <b>Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion - Un Pwynt Mynediad</b>                                                                           | 03000 858858                                                                                        |
| <b>Prif Swyddog, Addysg ac Ieuenctid</b><br><b>Claire Homard</b>                                                                          | 01352 704601                                                                                        |
| <b>Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg</b><br><b>Claire Sinnott</b><br>(Ymgynghorydd Dysgu – Iechyd, Lles a Diogelu) | 07867684653                                                                                         |
| <b>Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Sorted Sir y Fflint</b>                                                                  | 01352 702695 / 07909 002014                                                                         |
| <b>Uwch Ymgynghorydd Dysgu – Ymgysylltiad</b>                                                                                             | 01352 704066 / 07785695823                                                                          |
| <b>Uwch Weithiwr Cymdeithasol Addysg</b>                                                                                                  | 01352 704137 / 07876 790250                                                                         |
| <b>Heddlu Gogledd Cymru</b>                                                                                                               | Argyfwng: <b>999</b><br>Di-argyfwng: <b>101</b>                                                     |

## Talfyriadau ac Acronymau

|                       |                                                            |
|-----------------------|------------------------------------------------------------|
|                       |                                                            |
| <b>ACE</b>            | Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod                    |
| <b>CCUHP</b>          | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn       |
| <b>GDG</b>            | Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd                            |
| <b>GDPR</b>           | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol                        |
| <b>CCC</b>            | Canolfan Cymorth Cynnar                                    |
| <b>GCC</b>            | Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth                              |
| <b>UDD</b>            | Unigolyn Diogelu Dynodedig                                 |
| <b>CGM</b>            | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg                               |
| <b>RSE</b>            | Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb                           |
| <b>WSAEHWB</b>        | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol     |
| <b>BDGC</b>           | Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru                                |
| <b>CGA</b>            | Cyngor y Gweithlu Addysg                                   |
| <b>SUSR</b>           | Adolygiad Diogelu Unedig Sengl                             |
| <b>WASPI</b>          | Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru                  |
| <b>SDD</b>            | Swyddog Diogelu Data                                       |
| <b>GDPR</b>           | Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol                        |
| <b>AYP</b>            | Adolygiad Ymarfer Plant                                    |
| <b>CPOMS</b>          | System Rheoli Amddiffyn Plant Ar-lein                      |
| <b>CAMHS</b>          | Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion                 |
| <b>ADY</b>            | Anghenion Dysgu Ychwanegol                                 |
| <b>Cydlynnydd ADY</b> | Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol                      |
| <b>CSE</b>            | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant                            |
| <b>CCE</b>            | Camfanteisio'n Droseddol ar Blant                          |
| <b>NRM</b>            | Mecanwaith Cyfeirio Cenedlaethol.                          |
| <b>YRhN</b>           | Ymddygiad Rhywiol Niweidiol                                |
| <b>VAWDASV</b>        | Trais yn erbyn Merched, Cam-Drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| <b>FGM</b>            | Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod                         |
| <b>FfCD</b>           | Fframwaith Cymhwysedd Digidol                              |
| <b>UCD</b>            | Uned Cyfeirio Disgyblion                                   |
| <b>AA</b>             | Adran Addysg                                               |
| <b>UDA</b>            | Uwch Dîm Arweinyddiaeth                                    |
| <b>CSFf</b>           | Cyngor Sir y Fflint                                        |
| <b>SDALI</b>          | Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol                        |
| <b>CLI</b>            | Cadeirydd y Llywodraethwyr                                 |
| <b>AYO</b>            | Adolygiad Ymarfer Oedolion                                 |
| <b>ADD</b>            | Adolygiad Dynladdiad Domestig                              |

|             |                                     |
|-------------|-------------------------------------|
| <b>ADIM</b> | Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl  |
| <b>ADAY</b> | Adolygiad Dynladdiad Arfau Ymosodol |

## 1. Rhagarweiniad

**1.1** Mae ysgol Ysgol Gymraeg Mornant yn cydnabod y cyfrifoldeb moesol a statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu ethos ac amgylchedd o fewn ein hysgol a fydd yn helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel, sicr ac wedi'u parchu; yn cael eu hannog i siarad yn agored; a'u galluogi i deimlo'n hyderus bod ganddynt lais. Rydym yn gwylio am arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod ac yn dilyn **Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019** er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn yn effeithiol ac yn cael cyfiawnder. **Mae adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc drwy atal neu oedi amgylchiadau a allai arwain at ymyrraeth gan y Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn cynnwys adnabod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chamau gweithredu i'w hatal neu eu lliniaru, neu helpu'r plentyn i feithrin gwytnwch.**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cydnabod pwysigrwydd hawliau a rhyddid plant ac mae'n rhoi budd gorau'r plentyn yn gyntaf. Mae 54 o hawliau a chyfeirir atynt fel 'Erthyglau' sy'n berthnasol i bob plentyn rhwng 0 a 18 oed. Mae Erthygl 19 a 36 yn arbennig o berthnasol ac mae'n bwysig bod pawb yn deall yr hawliau hyn a sicrhau eu bod yn cael eu cynnal:

**Erthygl 19 - Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag trais, camdriniaeth neu esgeulustod.**

**Erthygl 36 - Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag niwed.**

Dyma egwyddorion diogelu craidd ein hysgol:

- Mae gan yr holl ddysgwyr hawl i gael eu hamddiffyn rhag pob ffurf ar gamdriniaeth a gwahaniaethu ac i gael eu trin yn deg, heb ystyried eu hoedran, rhyw, tarddiad hiliol, diwylliant, cred grefyddol, iaith, anabledd na'u hunaniaeth rywiol.
- Mae gan bob dysgwr hawl i gael eu clywed ac i bobl ystyried eu dymuniadau a'u teimladau.
- Mae'r holl staff yn deall arferion proffesiynol diogel ac yn cadw at ein cod ymddygiad a pholisïau cysylltiedig eraill
- Mae cyfrifoldeb ar bob aelod staff i adnabod os yw dysgwr yn agored i niwed a gweithredu ar unrhyw bryder yn unol â'r polisi hwn.

Mae tair prif elfen i'r polisi hwn:

- Atal drwy'r diwylliant, yr addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddysgwyr

- Gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd am achosion, neu amheuaeth, o gam-drin. Gan ein bod mewn cyswllt â phlant o ddydd i ddydd, mae staff ysgolion mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol cam-drin
- Cefnogaeth i'r dysgwyr hynny allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn Ysgol Gymraeg Mornant a'i llywodraethwyr. Gall cynorthwyywyr cefnogi dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalcwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt datgelu cyntaf i blentyn. Mae'r pwynt cyswllt cyntaf hwn yn rhan bwysig o'r broses amddiffyn plant ac mae'n hanfodol bod yr holl staff yn ymwybodol o weithdrefnau'r ysgol ac yn eu dilyn.

## 1.2 Diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i Ddiogelu Plant

Ystyr diogelu yn ôl y **Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022** yw '*atal ac amddiffyn plant rhag camdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed, ac addysgu'r rheiny o'u cwrmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon*'.

Diffinnir diogelu a hybu lles plant sy'n mynychu lleoliad addysg fel a ganlyn:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- atal niwed i iechyd neu ddatblygiad plant
- sicrhau bod plant yn cael eu magu mewn amgylchiadau cyson gyda
- gofal diogel ac effeithiol
- gweithredu i alluogi pob plentyn i gael y canlyniadau gorau.

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o'r diffiniadau o gam-drin ac esgeulustod yn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn ogystal ag arwyddion a dangosyddion camdriniaeth ac esgeulustod. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyfathrebu pryderon am niwed mewn ffordd ystyrlon. Mae'r diffiniadau isod wedi'u nodi yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019:

Mae '**camdriniaeth**' yn golygu camdriniaeth gorfforol, rywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

Mae '**esgeulustod**' yn golygu methu â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at nam ar les yr unigolyn (er enghraifft, nam ar iechyd yr unigolyn neu, yn achos plentyn, nam ar ddatblygiad y plentyn);

'**Plentyn**' Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Canllawiau cysylltiedig yn diffinio 'plentyn' fel unigolyn o dan 18 oed.

Ystyr '**plentyn mewn perygl**' yn ôl A.130 (4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw plentyn sydd:

- yn profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Mae 'oedolyn mewn perygl' yn oedolyn sy'n:

- profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio) ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r perygl ohono.

*Mae'r defnydd o'r term 'mewn perygl' yn golygu nad oes achosion o gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed o reidrwydd yn digwydd. Yn hytrach, byddai achosion o gam-drin ac esgeulustod yn debygol o ddigwydd heb ymyriadau gan wasanaethau.*

Ystyr 'niwed' yw:

- camdriniaeth; mae hyn yn cynnwys camdriniaeth rywiol, esgeulustod, camdriniaeth emosiynol a chamdriniaeth seicolegol
- achosi nam ar iechyd corfforol neu feddyliol (gan gynnwys yr hun a ddioddefir yn sgil gweld neu glywed unigolyn arall yn dioddef camdriniaeth).
- achosi nam ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol (gan gynnwys yr hun a ddioddefir yn sgil gweld neu glywed person arall yn dioddef camdriniaeth).

**'Niwed Arwyddocaol'** - nid oes diffiniad statudol o niwed arwyddocaol. Felly, rhaid i ymarferwyr:

*'Lle bo cwestiwn ynghylch a yw niwed yn sylweddol yn troi ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn, dylid cymharu iechyd neu ddatblygiad y plentyn â'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl mewn plentyn tebyg (Adran 31(9), Deddf Plant 1989.*

Mae pryderon am niwed arwyddocaol tebygol neu wirioneddol i blentyn yn drothwy ar gyfer dechrau ymholiadau a47 dan Ddeddf Plant 1989.

Gweler isod restr anghyflawn o enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau o niwed, camdriniaeth ac esgeulustod a nodir yng nghyfrol 5 Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 5 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Ddiogelu Plant mewn Perygl:

**Cam-drin corfforol** – taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, atal rhywun yn ormodol neu gosbi'n amhriodol

**Cam-drin emosiynol / seicolegol** – bygythiadau o niwed neu adael, rheolaeth drwy orfodaeth, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu allan o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, bod yn dyst i achosion o gam-drin eraill

**Cam-drin rhywiol** – gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio, yn cynnwys: cyswllt corfforol, gan gynnwys gweithredoedd treiddiol neu anhreiddiol, gweithgareddau heb gyswllt, megis cynnwys plant yn y broses o wyllo, neu gynhyrchu deunyddiau pornograffig, neu wyllo gweithgareddau rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd amhriodol yn rhywiol

**Cam-drin ariannol** – bydd y categori hwn yn llai amlwg ar gyfer plentyn, ond gall ddangos trwy: peidio â diwallu eu hanghenion o ran gofal a chymorth a roddir drwy daliadau uniongyrchol; neu gwynion bod eiddo personol ar goll.

**Esgeulustod** – methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol sy'n debygol o arwain at nam ar iechyd neu ddatblygiad.

Ar gyfer Arwyddion a Dangosyddion o Gam-drin, Esgeulustod a Niwed Posibl mewn Plentyn, gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru: <https://diogelu.cymru/chi/cp/c1p.p2.html>

## 2. Y Fframwaith ar gyfer Diogelu yng Nghymru

**2.1** Mae gan bob ysgol a choleg ddyletswyddau statudol i weithredu mewn modd sy'n ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles plant, ac yn achos rhai oedolion, colegau. Mae'r cyfrifoldebau cyfreithiol wedi'u nodi yn y canlynol:

- dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin
- y ddyletswydd i adrodd
- y ddyletswydd sy'n deillio o'r cytundeb cyflogaeth.

Mae angen i'r trefniadau sydd gan awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ar waith i gydymffurfio â'r dyletswyddau statudol hyn sicrhau:

- bod mesurau rhesymol yn cael eu cymryd i leihau'r risgiau o niwed i les plant
- bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon am les plentyn neu blant, gan weithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau lleol a gytunwyd arnynt mewn partneriaeth lawn ag asiantaethau lleol eraill.

### 2.2 Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae Adran 175 **Deddf Addysg 2002** yn gofyn bod cyrff llywodraethu ysgolion, awdurdodau addysg lleol a sefydliadau addysg bellach yn gwneud trefniadau i ddiogelu a hybu lles y plant i gyd sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, neu sy'n fyfyrwyr dan 18 oed.

Mae **Deddf Plant 1989 a 2004** yn rhoi dyletswydd statudol ar amrywiaeth o sefydliadau i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau, a gwasanaethau a ddarperir ar eu rhan, yn cael eu cyflawni gan ystyried yr angen i ddiogelu a hybu lles dysgwyr.

Bydd y corff llywodraethu yn ysgol Gymraeg Mornant yn sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o'r ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol mewn perthynas â diogelu plant yn eu gofal a byddant yn rhoi sylw dyledus i'r canlynol:

- Deddf Hawliau Dynol 1998
- **Deddf Amdiffyn Plant 1999 (CRB) (2013 GDG)**
- Deddf Cydraddoldeb 2010 a **Deddf Diogelu Gweithwyr 2023**

- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1992.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a Chanllawiau'r Ddyletswydd Prevent 2024
- Deddf Terfysgaeth (Amddiffyn Eiddo) 2025 (Cyfraith Martyn)
- Deddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Deddf Cam-Drin Domestig 2021
- Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) 2018
- Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) 2020

Yma yn Ysgol Gymraeg Mornant byddwn yn dilyn **Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019** sydd wedi cael eu cefnogi gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Ochr yn ochr â'r gweithdrefnau hyn, bydd yr ysgol yn dilyn dogfen Ganllaw Cadw Dysgwyr yn Ddiogel rhif: 283/2022 a gefnogir gan unrhyw ganllawiau a phrotocolau eraill sydd wedi'u cymeradwyo a'u cytuno gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ar y cyd â'r polisi hwn.

Gall methu â sicrhau bod trefniadau ar waith fel sy'n ofynnol dan adran 175, neu fethu â chadw at reoliadau a wnaed dan adran 157 Deddf 2002, neu fethu â rhoi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, fod yn sail i Weinidogion Cymru gymryd camau yn erbyn awdurdodau lleol neu gyrrff llywodraethu. Yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau hyn ar waith. Nid oes gan unigolion atebolrwydd uniongyrchol.

### 2.3 Dyletswydd Statudol i Adrodd

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd i adrodd am blant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, bydd dyletswydd i adrodd i'r awdurdod lleol yn golygu atgyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd, ochr yn ochr â'r Heddlu, â grymoedd statudol i ymchwilio i amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod. Mae'r defnydd o'r term 'mewn perygl' yn golygu nad oes rhaid i gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed gwirioneddol fod wedi digwydd, ond yn hytrach dylid ystyried ymyriadau cynnar i amddiffyn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin er mwyn rhwystro achosion gwirioneddol o gam-drin ac esgeuluso.

Rhaid llunio adroddiad pan fydd pryderon am blentyn dan 18 oed:

- yn profi neu mewn perygl o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed; ac
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

Dylid llunio adroddiad pan fydd pryderon am oedolyn sy'n wynebu risg:

- yn profi, neu mewn perygl o brofi, camdriniaeth neu esgeulustod,
- sydd angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) ac
- o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r perygl ohono.

Os oes gan unrhyw aelod staff wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o wynebu risg o niwed, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at yr Unigolyn Diogelu Dynodedig. **NID MATER O DDEWIS PERSONOL YW HYN.**

## 2.4 Polisiâu Cysylltiedig

Yn ogystal â'r polisi diogelu hwn, mae yna bolisiâu eraill sy'n berthnasol i ddiogelu y bydd ein hysgol yn eu monitro i sicrhau bod cysondeb a chydlynid yn y ffordd rydym yn diogelu ein dysgwyr yn effeithiol. Mae enghreifftiau o bolisiâu ysgol perthnasol eraill fel y'u nodir yn Adnodd Archwilio Trefniadau Diogelu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel yn cynnwys:

|                                                                      |
|----------------------------------------------------------------------|
| • <b>Polisi</b> Diogelwch Ar-lein                                    |
| • <b>Polisi</b> Ymddygiad                                            |
| • <b>Polisi</b> Ymyrraeth Gorfforol                                  |
| • Gwrth-fwlio <u>gan gynnwys</u> Seiber Fwlio                        |
| • Polisi Presenoldeb a <b>Gwaharddiadau</b>                          |
| • Polisi <b>Anghenion Dysgu Ychwanegol</b>                           |
| • <b>Polisi</b> Anghenion Gofal Iechyd                               |
| • <b>Polisi</b> Gofal Personol                                       |
| • <b>Polisi</b> Iechyd a Diogelwch                                   |
| • Cynllun Cydraddoldeb Strategol                                     |
| • <b>Polisi</b> Recriwtio Mwy Diogel                                 |
| • <b>Protocolau Ymddygiad/Cyfathrebu Proffesiynol ar gyfer Staff</b> |
| • <b>Ymdrin â Honiadau o Gam-drin Proffesiynol</b>                   |
| • <b>Polisi</b> Rhannu Pryderon                                      |
| • <b>Polisi</b> Ymweliadau Addysgol                                  |
| Arall:                                                               |

### 3. Atal a Chymorth Cynnar

#### 3.1 Atal a chymorth cynnar rhag camdriniaeth, esgeulustod a niwed

Mae cymorth cynnar, a elwir hefyd yn ymyrraeth gynnar, yn chwarae rôl hanfodol i ddiogelu plant ac atal camdriniaeth, esgeulustod a niwed hirdymor. Y nod yw:

- Amddiffyn plant rhag niwed;
- Atal uwchgyfeirio pryderon;
- Lleihau'r angen am ymyrraethau diogelu statudol;
- Hyrwyddo lles a gwytnwch hirdymor.

Dylai plant a theuluoedd a ystyrir yn ddi-amddiffyn gael cynnig cymorth cynnar cyn gynted ag y mae pryderon yn codi. Gwyddwn fod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE), megis camdriniaeth esgeulustod, cam-drin domestig, iechyd meddwl gwael a chwalfa deuluol, yn cael effeithiau parhaus ar ddatblygiad plant, eu hiechyd a chanlyniadau yn y dyfodol.

Mae adnabod ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol i ddiwallu anghenion plant drwy atal neu oedi amgylchiadau a allai arwain at ymyrraeth gan y Gwasanaethau Plant. Mae hyn yn cynnwys adnabod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a chamau gweithredu i'w hatal neu'u lliniaru, neu gefnogi'r plentyn i feithrin gwytnwch.

Gall fynd i'r afael â phroblemau lles lefel isel yn gynnar atal problemau rhag gwaethygu. Felly, mae atal, canfod ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol, ac mae rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i athrawon a staff ysgol eraill er mwyn canfod problemau, ynghyd â chymorth drwy ymgynghori, cysylltu a chynghori gyda gwasanaethau mwy arbenigol yn allweddol i'r dull ysgol gyfan.

Yn Sir y Fflint, mae'r Canolfan Cymorth Cynnar (CCC) yn cefnogi teuluoedd nad ydynt yn bodloni'r trothwyon statudol ar gyfer Gwasanaethau Plant. Mae'n wasanaeth aml-asiantaeth sy'n cynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol, yr Heddlu, Iechyd, Addysg, Cyfiawnder Ieuenctid, Timoedd Cymorth i Deuluoedd, Gwasanaethau Cam-drin Domestig, Gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r Sector Gwirfoddol.

Mae atgyfeiriadau i'r CCC yn cael eu gwneud pan fydd plentyn neu deulu yn elwa o gymorth cynnar wedi'i gydlynw. Mae'r ganolfan yn cydweithio er mwyn:

- Darparu ymyrraethau amserol, wedi'u targedu;
- Cryfhau sgiliau ymdopi teuluoedd;
- Mynd i'r afael â materion megis ymddygiad heriol, iechyd meddwl, cam-drin domestig a gwrthdaro rhwng rhieni.

Mewn ymateb â'r galw cynyddol, mae Sir y Fflint hefyd wedi sefydlu'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCC), sy'n cynnig mynediad sydyn ar gymorth a sgysiau gyda theuluoedd i ddeall eu hanghenion a'u cysylltu nhw â'r cymorth cywir.

Mae gan holl staff ysgol gyfrifoldeb i nodi plant a all elwa o gymorth cynnar ac i ddilyn llwybrau atgyfeirio lleol, gan gynnwys ymgynghoriad â'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD), a'r defnydd o GCC neu CCC lle bo'n briodol.

### 3.2 Cwricwlwm i Gymru

Mae gwaith atal wedi'i integreiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn helpu sefydlu ethos cadarnhaol sy'n cynnig amgylchedd diogel i ddysgwyr allu dysgu a chael y cyfle a'r hyder i rannu pryderon gydag oedolion dibynadwy. Gall trafod problemau a gwrando ar safbwyntiau a barn cyfoedion helpu newid agweddau a chynnig cymorth. Wrth drafod materion sensitif, rhaid eu cyflwyno mewn ffordd gytbwys a sicrhau bod materion moesegol yn cael eu trafod yn wrthrychol. Fodd bynnag, mae'r un mor bwysig galluogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad.

Nod cwricwlwm ysgol Gymraeg Mornant yw cefnogi ein dysgwyr i ddod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog, sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes
- cyfranwyr blaengar, creadigol, sy'n barod i fod yn rhan lawn o fywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, llawn gwybodaeth o Gymru a'r byd
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Yn Ysgol Gymraeg Mornant rydym yn gwneud hyn trwy sefydlu themâu dinasyddiaeth, democratiaeth, hawliau dynol (gan gynnwys CCUHP), a pharch ar gyfer amrywiaeth ar draws y cwricwlwm. Mae'r elfennau hyn yn cefnogi dysgwyr i ddeall y gwerthoedd sydd eu hangen i ffynnu mewn cymdeithas ddemocrataidd fodern a helpu i adeiladu gwytnwch yn erbyn syniadau eithafol neu ymrannol.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn elfennau gorfodol o fewn cwricwlwm yr ysgol. Mae ymagwedd ysgol gyfan tuag at les emosiynol a meddyliol (WSAEMWB) wedi cael ei fabwysiadu er mwyn sicrhau bod mesurau diogelu ac ataliol mewn lle i gefnogi plant a theuluoedd.

## 4. Rolau a Chyfrifoldebau

### 4.1 Rôl yr Awdurdod Lleol

**Rhaid** i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod uwch swyddog priodol o fewn yr adran addysg wedi'i ddynodi i fod â chyfrifoldeb arweiniol dros gyflawni ei ddyletswyddau diogelu mewn addysg. Dylai'r ystod o gyfrifoldebau a briodolir i'r swydd swyddog dynodedig hon fod yn gyson â'r angen i sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith ar draws swyddogaethau addysg yr awdurdod. Yn Sir y Fflint, yr **Arweinydd Dynodedig Diogelu mewn Addysg yw Claire Sinnott**.

Mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldebau ar dair lefel: strategol, cefnogol a gweithredol fel y nodir yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cynllunio, cydlynu

gwasanaethau a dyrannu adnoddau gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn bodloni'r gofynion hyn.

Ar lefel **strategol**, dylai'r awdurdod lleol sicrhau:

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eu bod yn dyrannu adnoddau i gefnogi gwaith <b>Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC)</b></li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod eu huwch-swyddogion, yn cynnwys swyddogion addysg, yn cynrychioli'r awdurdod ar <b>Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru</b> a bod yr awdurdod yn gwneud cyfraniad effeithiol o ran cynllunio gwasanaethau cydlynol i ddiwallu anghenion plant.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                          |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eu bod yn gweithio gydag asiantaethau eraill i wneud a chefnogi trefniadau partneriaeth effeithiol.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eu bod yn meithrin perthynas waith gadarnhaol ac yn sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda gwasanaethau eraill yn yr awdurdod lleol;</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod adnoddau yn cael eu dyrannu er mwyn galluogi'r awdurdod lleol ac ysgolion a gynhelir i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant yn foddhaol.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod ymgysylltiad effeithiol gyda'r awdurdodau esgobaethol priodol mewn perthynas â threfniadau ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr neu sefydledig yn eu hardal.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod cydymffurfiaeth ysgolion a gynhelir gyda'r canllawiau hyn yn cael ei monitro, yn enwedig o ran gwiriadau cyflogaeth (yn cynnwys staff dros dro a staff asiantaeth), presenoldeb a gweithrediad polisïau a gweithdrefnau priodol a hyfforddiant staff, yn cynnwys yr uwch unigolyn gyda chyfrifoldeb diogelu dynodedig mewn ysgolion a'u goruchwyliaeth</li> </ul>                                                                                         |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eu bod yn dwyn unrhyw ddiffygion ger bron corff llywodraethu'r ysgol a rhoi cyngor ar sut i fynd i'r afael â'r diffyg.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod problemau rhyngasiantaethol yn cael eu datrys cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddod i'r amlwg.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Eu bod yn chwarae rhan lawn mewn adolygiadau ymarfer plant yn unol â <i>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 2 – Adolygiadau Ymarfer Plant</i>, adolygu a diwygio gweithdrefnau a hyfforddiant yn sgil canfyddiadau'r adolygiadau, a lledaenu gwybodaeth am ganfyddiadau perthnasol i'r unigolion hynny sy'n gyfrifol am amddiffyn plant yn yr awdurdod ac ysgolion a gynhelir.</li> </ul> |

Ar lefel **gefnogol**, dylai'r awdurdod lleol sicrhau:

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod yr hyfforddiant cynefino ar gyfer yr holl staff newydd mewn lleoliad addysg yn yr awdurdod, ac i staff a fydd yn gweithio gyda phlant mewn ysgolion a gynhelir, yn cynnwys hyfforddiant diogelu a fydd yn eu galluogi nhw i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol mewn perthynas ag amddiffyn plant, yn cynnwys ymateb i ddatgeliadau o gamdriniaeth, esgeulustod a mathau eraill o niwed yn briodol ac yn sensitif.</li> </ul> |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r awdurdod lleol hefyd sicrhau bod hyfforddiant gloywi addas yn cael ei gwblhau i gadw gwybodaeth a sgiliau staff yn gyfredol.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai llywodraethwyr ysgolion a gynhelir hefyd dderbyn hyfforddiant priodol ar eu cyfrifoldebau diogelu ac ar ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff ysgol.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                      |

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod hyfforddiant pellach ar waith rhyngasiantaethol i ddiogelu plant, naill ai wedi'i ddarparu gan <b>BDGC</b> neu'n bodloni'r safonau a osodwyd gan y Bwrdd, ar gael i bob aelod o staff sy'n gyfrifol am ddiogelu. Dylid sicrhau hefyd bod hyfforddiant gloywi ar gael a'i fod yn bodloni'r safonau a osodwyd gan <b>BDGC</b></li> </ul>                                                                                                                                                                      |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Cadw cofnod o'r holl Unigolion Diogelu Dynodedig a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu o fewn ysgolion yn eu hardal, yn ogystal â'r hyfforddiant a gynhaliwyd a'r dyddiadau a gynhaliwyd yr hyfforddiant.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Goruchwylio'r trefniadau goruchwylio ar gyfer Unigolion Diogelu Dynodedig yn yr awdurdod i sicrhau nad yw'r rôl yn cael effaith andwyol ar eu lles a bod ganddynt gyfle i fyfrio ar eu hymarfer.</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol ar gyfer ysgolion a gynhelir ar bob agwedd o amddiffyn plant, yn cynnwys recriwtio, a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau o gamdriniaeth yn erbyn staff a gwirfoddolwyr. Rhaid i'r polisïau a gweithdrefnau gyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru (yn enwedig y polisi enghreifftiol a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn y <i>Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol</i>: Canllawiau diwygiedig i Gyrff Llywodraethu, cylchlythyr 002/2020</li> </ul> |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu cyngor, canllawiau a chefnogaeth ynglŷn ag ymdrin ag achosion unigol o ysgolion a gynhelir ac Unigolion Diogelu Dynodedig yn y sefydliadau hynny. Lle bo angen, dylai'r awdurdod weithredu ar eu rhan i ddatrys unrhyw anawsterau gyda, neu gael cefnogaeth briodol gan, asiantaethau partner <b>BDGC</b></li> </ul>                                                                                                                                                                                            |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu gydag ysgolion a gynhelir, asiantaethau a cholegau i sicrhau bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA).</li> </ul>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi staff yn yr awdurdod ac ysgolion a gynhelir, sydd â chyfrifoldeb arweiniol dynodedig dros ddiogelu. Dylai'r trefniadau hyn annog a meithrin dealltwriaeth a pherthynas waith dda rhyngddyn nhw, gweithwyr cymdeithasol plant a staff mewn asiantaethau eraill sy'n rhan o ddiogelu plant, i ddatblygu gwaith partneriaeth effeithiol.</li> </ul>                                                                                                                              |

Ar lefel **weithredol** dylai'r awdurdod lleol:

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Hyrwyddo gweithdrefnau recriwtio diogel a chefnogi ysgolion i wneud yn siŵr bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar staff newydd a gwirfoddolwyr a fydd yn gweithio gyda phlant heb oruchwyliaeth, yn cynnwys gwiriadau'r GDG.</li> </ul>                                                             |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Diogelu a hybu lles plant nad ydynt wedi cael lle mewn ysgol, neu sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol, yn cynnwys yr unigolion hynny sy'n cael eu haddysgu mewn unedau cyfeirio disgyblion, darpariaeth amgen neu drwy'r gwasanaeth tiwtoriaid cartref.</li> </ul>                                                   |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Ceisio meithrin perthnasoedd effeithiol gydag addysgwyr yn y cartref sy'n gweithredu i ddiogelu buddiannau addysgol a lles plant. Bydd gwneud hynny'n rhoi mynediad i rieni/ gofawyr at unrhyw gefnogaeth sydd ar gael ac yn caniatáu i'r awdurdodau ddeall darpariaeth addysgol y rhieni / gofawyr.</li> </ul> |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer goruchwylio honiadau o gamdriniaeth yn erbyn aelodau o staff yn yr awdurdod, ysgolion neu golegau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau, 'Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol: Canllawiau diwygiedig i Gyrff Llywodraethu</li> </ul>               |

- |                                                                                                                                                                                                                                                                          |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <ul style="list-style-type: none"><li>Gweithio gydag ysgolion ac asiantaethau partner y BDP i sicrhau yr ymdrinnir â honiadau yn gyflym, yn deg ac yn gyson, a bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud i'r GDG a Chyngor y Gweithlu Addysg.</li></ul>                |
| <ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhau bod staff yr awdurdod sy'n gweithio gyda phlant (gan gynnwys unrhyw staff sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod) yn derbyn hyfforddiant sy'n eu paratoi i gyflawni eu dyletswyddau i amddiffyn plant yn effeithiol.</li></ul> |

## 4.2 Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu

Mae cyrff llywodraethu yn atebol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith i ddiogelu a hybu lles plant yn unol â'r canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022, a monitro cydymffurfiaeth â'r canllawiau. **Rhaid** i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir sicrhau eu bod:

- yn rhoi polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith (yn cynnwys rhai ar gyfer amddiffyn plant) sydd:
  - yn unol â chanllawiau'r awdurdod lleol, gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol a safonau gofynnol cenedlaethol
  - yn cynnwys gwasanaethau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r diwrnod ysgol / coleg (e.e. llety preswyl, gweithgareddau cymunedol ar safle'r ysgol ac ati);
  - **yn cael eu hadolygu o leiaf unwaith bob blwyddyn**
  - ar gael i rieni neu ofalwyr ar gais; ac
  - yn cael eu darparu mewn fformat sy'n addas i ddealltwriaeth plant, yn enwedig lle mae ysgolion a cholegau'n darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- yn rhoi gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith sy'n ystyried yr angen i ddiogelu plant, gan gynnwys trefniadau i sicrhau bod pob gwiriad priodol yn cael ei gynnal ar gyfer aelodau newydd o staff a gwirfoddolwyr heb oruchwyliaeth a fydd yn gweithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau perthnasol
- yn sicrhau bod y pennaeth a phob aelod parhaol arall o'r staff a phob gwirfoddolwr sy'n gweithio gyda phlant yn cael yr hyfforddiant sydd ei angen i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu yn effeithiol, a bod yr hyfforddiant hwnnw'n cael ei ddiweddarw'n gyson ar ffurf hyfforddiant gloywi;
- yn rhoi arweiniad clir i staff dros dro a gwirfoddolwyr sy'n cyflenwi yn ystod absenoldebau tymor byr ac a fydd yn gweithio gyda phlant.
- yn sicrhau bod y corff llywodraethu yn unioni unrhyw ddiffygion neu wendidau mewn perthynas ag unrhyw drefniadau amddiffyn plant y tynnwyd ei sylw atynt; a
- yn sicrhau bod yr unigolyn diogelu dynodedig, y llywodraethwr dynodedig a chadeirydd y llywodraethwyr yn derbyn hyfforddiant ar weithio rhyngasiantaethol sy'n cael ei ddarparu gan, neu sy'n unol â safonau **BDGC**, yn ogystal â hyfforddiant atgoffa er mwyn i'w gwybodaeth a'u sgiliau fod yn gyfredol, yn ychwanegol at hyfforddiant diogelu sylfaenol.
- Dylai** pob aelod o gyrff llywodraethu ddilyn hyfforddiant diogelu ac amddiffyn plant perthnasol o fewn y tymor cyntaf ar ôl dechrau'r rôl. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen i gyflawni eu swyddogaethau a deall eu cyfrifoldebau diogelu ehangach. Mae aelodau'r corff llywodraethu yn dod dan Grŵp F y Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol a dylent gwblhau o leiaf hyfforddiant Diogelu Grŵp A sydd ar gael ar-lein gan Ofal Cymdeithasol Cymru.

Gellir cyfeirio llywodraethwyr at fodiwlau *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel* hefyd. Mae'r rhain yn cefnogi pob aelod o staff mewn lleoliadau addysg i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu fel y nodir yn y canllawiau *Cadw Dysgwyr yn Ddiogel*. Mae pum modiwl gwahanol ar gael ar Hwb.

*Cyfeiriwch at Atodiad 3 a 4 i gael rhagor o wybodaeth am grwpiau'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol.*

#### 4.3 Cyfrifoldebau'r Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Diogelu

Mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith yn yr ysgol ar gyfer diogelu plant, yn ogystal â monitro a sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â nhw. Argymhellir bod gan bob corff llywodraethu lywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant, er mwyn hybu pwysigrwydd diogelu ac amddiffyn plant. Bydd y llywodraethwr amddiffyn plant yn cefnogi ac yn cynorthwyo'r corff llywodraethu i gael gwell dealltwriaeth a gwybodaeth am y ddarpariaeth amddiffyn a diogelu plant yn yr ysgol.

Dylai ysgolion nodi llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu, er enghraifft er mwyn:

- Cadarnhau bod gan yr ysgol Bolisi Diogelu, sy'n gyson â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019, ei fod yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i fod ar gael yn rhwydd i bob aelod o staff
- Bod yn gyfarwydd â Pholisi Diogelu'r ysgol, Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 a chael gwybod am fentrau amddiffyn a diogelu plant, yn genedlaethol ac yn lleol gan Lywodraeth Cymru, y Consortïwm Rhanbarthol a'r Awdurdod Lleol
- Sicrhau bod y corff llywodraethu yn cyflawni adolygiad **flynyddol** o bolisïau a gweithdrefnau diogelu
- Sicrhau fod gwerthusiad o drefniadau diogelu'r ysgol yn cael ei gynnal (*gan ddefnyddio Offer Archwilio Cadw Dysgwyr yn Ddiogel / cwblhau Adroddiad Diogelu Plant Blynnyddol ar gyfer yr ALI*) a bod camau gweithredu a therfynau amser wedi'u trefnu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodir
- Sicrhau bod gan yr ysgol weithdrefn disgyblu staff gyfredol a chytûn ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn erbyn staff a honiadau amddiffyn plant, sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys penodi ymchwilydd annibynnol ac yn ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a gweithdrefnau rhyngasiantaethol y cytunwyd arnynt yn lleol
- Ymgysgu'r ysgol â chanllawiau diogelu Estyn
- Cwrdd fel sydd angen, drwy apwyntiad, gyda'r aelod o staff dynodedig ar gyfer amddiffyn plant, er mwyn monitro effeithiolrwydd y Polisi Diogelu yn yr ysgol (yn unol â'r polisi Ymweliadau Llywodraethwyr ag Ysgolion)
- Gweithio gyda'r Llywodraethwr cyswllt Anghenion Dysgu Ychwanegol (os yw'n briodol)
- Helpu i sicrhau bod yr ysgol yn gweithio'n dda gydag asiantaethau ac unigolion perthnasol;
- Helpu i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw gan yr ysgol a bod y ffeil amddiffyn plant yn gyfredol
- Bod yn ymwybodol o'r niferoedd o ddysgwyr yn yr ysgol sydd ar y gofrestr amddiffyn plant gyfredol
- Gwirio bod staff a llywodraethwyr wedi'u hyfforddi'n briodol a bod pob aelod o staff a llywodraethwyr yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon amddiffyn plant

- Sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith a bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar aelodau newydd o staff a gwirfoddolwyr
- Sicrhau bod agweddau ar ddiogelu yn cael eu hymgorffori o fewn y cwricwlwm
- Diweddarau gwybodaeth Diogelu drwy fynd i sesiynau hyfforddi perthnasol i lywodraethwyr.

#### 4.4 Cyfrifoldebau'r Pennaeth

Dylai penaethiaid pob ysgol feithrin diwylliant meithringar yn yr ysgol a hybu dulliau cyfathrebu agored rhwng staff a dysgwyr ynghylch materion diogelu. Rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod yr holl staff (gan gynnwys athrawon cyflenwi a gwirfoddoli):

- yn rhoi'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu ar waith ac yn eu dilyn;
- yn cael digon o amser ac adnoddau i allu cyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys cymryd rhan mewn trafodaethau ar strategaeth a chyfarfodydd rhyngasiantaethol eraill, a chyfrannu at asesu plant;
- yn unol â'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol, mae'n rhaid i'r **Pennaeth** gwblhau hyfforddiant Grŵp C o leiaf.
- yn deall y gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant ac yn teimlo fel eu bod yn gallu codi pryderon am ymarfer gwael neu anniogel, a bod yn hyderus yr eir i'r afael â phryderon o'r fath mewn modd sensitif ac effeithiol yn unol â Gweithdrefnau Rhannu Pryderon mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol Llywodraeth Cymru; fel rhan o'u proses sefydlu, yn cael datganiad ysgrifenedig am bolisi a gweithdrefnau'r ysgol ac enw a manylion cyswllt yr unigolyn diogelu dynodedig; a
- **Rhaid** i'r Pennaeth benodi'r nifer priodol o unigolion diogelu dynodedig a dirprwy unigolion diogelu dynodedig ar gyfer eu lleoliad addysg.
- **Dylai** i'r Pennaeth sicrhau bod yr unigolyn diogelu dynodedig:
  - yn cael digon o amser ac adnoddau i gyflawni'r rôl yn effeithiol, a dylai hyn gael ei ddiffinio'n glir yn swydd-ddisgrifiad deiliad y swydd
  - yn gallu cael y lefelau gofynnol o hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni'r rôl, gan gynnwys hyfforddiant diogelwch ar-lein.
  - yn cael amser i fynd i, a rhoi adroddiadau a chynghor mewn cynadleddau achos a chyfarfodydd amlasiantaeth eraill yn ôl yr angen.
  - gyda'r offer TG priodol i gyflawni'r rôl yn effeithiol.
  - yn cael y gefnogaeth briodol yn eu rôl er mwyn sicrhau bod eu hanghenion lles yn cael eu diwallu.

#### 4.5 Cyfrifoldebau'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD)

**Rhaid** i bob ysgol nodi UDD sydd â chyfrifoldeb arweiniol am reoli pob pryder sy'n ymwneud â diogelu. Rhaid i'r UDD fod ar gael i drafod pryderon sy'n ymwneud â diogelu; dylid cysylltu â'r unigolyn hwnnw, pan fo'n bosib, i drafod p'un a ddylid codi pryder sy'n ymwneud â diogelu gyda'r awdurdod lleol; a bydd yn rheoli unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr unigolyn sy'n wynebu risg yn ddiogel rhag camdriniaeth.

Dylai pob ymarferydd wybod â phwy y dylid cysylltu yn eu lleoliad addysg i gael cynghor, ac ni ddylent oedi cyn mynd i drafod eu pryderon, waeth pa mor ddibwys y mae'r pryderon hynny'n ymddangos.

Nid oes rhaid i'r UDD fod yn athro, ond **rhaid** iddo fod yn uwch aelod o dîm arwain yr ysgol, gyda'r statws a'r awdurdod o fewn y sefydliad i gyflawni dyletswyddau'r swydd, gan gynnwys neilltuo adnoddau ar gyfer materion diogelu a chyfarwyddo aelodau staff eraill. Gallai'r UDD hefyd fod yn benodiad unigol yn yr uwch dîm heb fod angen iddo gyflawni dyletswyddau eraill.

**Rhaid** bod gan bob unigolyn diogelu dynodedig o leiaf un dirprwy sydd â statws cyfwerth a chyfleoedd i ymgymryd â'r un hyfforddiant. Bydd nifer y dirprwyon yn dibynnu ar y lleoliad addysg, a dylai adlewyrchu faint o waith sydd yna i'w gyflawni a maint y lleoliad addysg. Dylai fod gan leoliadau addysg mwy dîm o staff sy'n cydweithio a dylai lleoliadau addysg â mwy nag un safle sicrhau bod UDD ar gael ar bob safle.

**Dylai** fod gan yr UDD y sgiliau a'r rhinweddau angenrheidiol ar gyfer y rôl, a fydd yn canolbwyntio'n gadarn ar gyfathrebu gyda dysgwyr a gweithwyr proffesiynol. Gall y rôl hon fod yn un heriol a bydd angen lefel penodol o arbenigedd, gwybodaeth, adnoddau a chefnogaeth. Yn unol â'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol, mae'n rhaid i'r UDD gwblhau hyfforddiant Grŵp C o leiaf.

Gall y cyfrifoldeb o ddelio ag achosion unigol gael ei ddirprwyo i aelodau eraill o staff, ond mae'n bwysig bod uwch aelod o staff yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y maes gwaith hwn. Dylid sicrhau bod yr UDD yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chanlyniad pob achos. Dylid sicrhau bod pob aelod staff sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldebau hyn wedi cael hyfforddiant llawn a'u bod yn meddu ar y sgiliau priodol.

Mewn lleoliadau addysg lle ceir nifer uchel o bryderon ynghylch diogelu, dylid ystyried penodi UDD llawn amser gyda'r sgiliau a'r profiad perthnasol. Gallai trefniant amgen olygu dirprwyo'r cyfrifoldebau dydd i ddydd, gyda'r cyfrifoldeb cyffredinol yn disgyn ar yr UDD, fel y disgrifir uchod.

**Dylai**'r UDD gael cymorth a goruchwyliaeth ddigonol i ymgymryd â'r rôl yn effeithiol. Dylai'r trefniadau goruchwyllo gefnogi'r UDD gydag effaith emosiynol y rôl a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ar eu hymarfer. Gellid gwneud hyn ar sail unigol neu fel grŵp, ond dylid cynnig cyfle i'r UDD gael cymorth unigol os bydd angen.

**Rhaid** i'r UDD wybod sut i adnabod arwyddion cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed, boed hynny ar-lein neu beidio, a gwybod pryd mae'n briodol hysbysu'r awdurdod lleol (neu'r Heddlu os yw'r plentyn / plant mewn perygl uniongyrchol).

Mae rôl yr UDD yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i staff eraill, cadw cofnodion, gweithio gydag aelodau o'r teulu neu ofalwyr, gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau plant a mynychu cyfarfodydd statudol, yn ogystal â chysylltu â **Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDCG)** a gweithio gydag asiantaethau eraill fel y bo angen. Nid rôl yr UDD yw ymchwilio i honiadau, ond **rhaid** iddynt roi gwybod i'r Pennaeth am bob pryder ynglŷn â diogelu a godir yn yr ysgol.

**Dylai**'r UDD hefyd ystyried sut y gellir ymdrin â materion sy'n ymwneud â diogelu'n ehangach a sicrhau y caiff mesurau ataliol eu mabwysiadu yn y lleoliad addysg. Bydd y rhan hon o'r rôl yn cynnwys meithrin perthnasoedd gydag asiantaethau eraill, yn ogystal â sicrhau bod staff a dysgwyr yn ymwybodol o'r risgiau a sut i gael gfael ar gymorth. **Dylai'r UDD ddarparu**

cymorth i aelodau staff er mwyn cyflawni eu dyletswyddau diogelu a chyfathrebu'n agos gyda gwasanaethau eraill megis gwasanaethau gofal cymdeithasol plant a chefnogaeth i deuluoedd.

Bydd yr unigolyn diogelu dynodedig yn gyfrifol am arfer polisi, gweithdrefnau a datblygiad proffesiynol y lleoliad addysg mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant, gan weithio gydag asiantaethau eraill lle bo angen. **Dylai**'r unigolyn diogelu dynodedig sicrhau bod polisi diogelu'r ysgol yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu bob blwyddyn, a chydweithio gyda'r corff llywodraethu neu'r perchennog mewn perthynas â hyn. Mae'n rhaid i'r UDD gadw cofnod o'r holl hyfforddiant staff, gan gynnwys dyddiadau, manylion y darparwr a chofnod o bresenoldeb staff.

Yr UDD sy'n gyfrifol am sicrhau bod rhieni / gofalwyr yn gweld copïau o'r polisi diogelu. Gall hyn helpu osgoi'r posibilrwydd o wrthdaro yn nes ymlaen drwy dynnu eu sylw at rôl yr ysgol a'r ffaith y gellir hysbysu'r awdurdod lleol o bryderon ynglŷn â diogelu. Bydd llawer o leoliadau addysg yn cynnwys gwybodaeth am hyn mewn cyfarfodydd sefydlu i rieni / gofalwyr newydd, yn eu prospectws ac ar eu gwefan.

**Dylai**'r UDD sicrhau bod yr ysgol yn cwblhau Adnodd Archwilio Trefniadau Diogelu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, er mwyn cefnogi dull lleoliad cyfan o ddiogelu a chynig meincnod i geisio parhau i wella dulliau a strwythurau diogelu yn ei erbyn. Dylid adolygu'r Adnodd Archwilio'n rheolaidd i sicrhau bod myfyrio, dysgu a diweddarau prosesau yn digwydd yn gyson yn yr ysgol.

Gellir lawrlwytho'r Adnodd Archwilio drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/annex-3-safeguarding-audit-tool.docx>

**Sylwer: Gofynnir i holl ysgolion Sir y Fflint gyflwyno'r Adnodd Archwilio Trefniadau Diogelu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel** i'r ALI at ddibenion monitro [ddwywaith y flwyddyn](#).

Mae'n **arfer effeithiol** i'r UDD ddarparu briff blyneddol a diweddariadau rheolaidd mewn cyfarfodydd staff ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelu a/neu amddiffyn plant neu newidiadau i weithdrefnau lleol. Mae hyn yn sicrhau bod gan staff yr wybodaeth ddiweddaraf a'u bod yn cael eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau'n rheolaidd, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae nifer o ysgolion yn ei gweld yn fuddiol trafod diogelu'n rheolaidd mewn cyfarfodydd staff er mwyn cadw lefelau ymwybyddiaeth yn uchel.

**Dylai**'r UDD gysylltu gyda'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer diogelu er mwyn i'r llywodraethwr dynodedig allu adrodd ar faterion diogelu, boed y mater ar-lein neu all-lein, i'r corff llywodraethu. Ni ddylai adroddiadau i'r corff llywodraethu fod ynghylch achosion amddiffyn plant penodol, dylent yn hytrach adolygu'r polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae'n arfer dda i'r llywodraethwr dynodedig a'r UDD gyflwyno'r adroddiad ar y cyd.

#### 4.6 Cyfrifoldebau'r Holl Staff

Rhaid i holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn ysgol Gymraeg Mornant fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau canlynol:

- Dylai pob aelod staff fod yn ymwybodol o arwyddion cam-drin, esgeulustod a mathau eraill o niwed.
- Mae pob aelod staff yn gyfrifol am ddarparu amgylchedd diogel ac adnabod plant sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio, neu sy'n wynebu risg o hynny, waeth ble mae'n digwydd (ar-lein neu fel arall, ar safle'r ysgol neu y tu hwnt iddo).
- Atgoffir pob aelod staff na allant addo cyfrinachedd ar ôl i blentyn ddatgelu.
- Pan fo gan aelodau staff bryderon bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso, neu unrhyw niwed arall, dylent godi'r rhain â'r UDD. Mae dyletswydd gyfreithiol i gofnodi a rhoi gwybod y pryderon ar y diwrnod pan godir yr honiad/pryder. Gwneir hyn fel arfer drwy'r UDD ond rhaid rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y plentyn, felly weithiau mae'n bosib y bydd angen i staff gysylltu'n uniongyrchol â Gwasanaethau Plant pan fydd pryder uniongyrchol.
- Rhaid i holl staff fod yn ymwybodol o rôl yr UDD, a sut i godi pryderon gyda'r UDD.
- Dylai holl staff fod yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru a gwybod sut i gael mynediad at y gweithdrefnau.
- Rhaid i bob aelod o staff gyflawni'r hyfforddiant diogelu priodol a chyfredol.
- Yn unol â'r Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol, mae'n rhaid i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant Grŵp A, ac yn dibynnu ar eu swydd, hefyd gwblhau hyfforddiant Grŵp B.
- Mae'n ofynnol i holl staff gwblhau modiwlau e-ddysgu Prevent a VAWDASV.
- Rhaid i holl staff fod yn glir am ffiniau proffesiynol a gweithredu'n briodol ac yn gyson gyda Chod Ymddygiad ysgolion a Chyngor y Gweithlu Addysg.
- Mewn digwyddiad o bryder neu honiad am aelod o staff, gwirfoddolwr neu weithiwr proffesiynol arall, dylai staff godi hyn gyda'r Pennaeth cyn gynted â phosibl.
- Dylai holl staff fod yn ymwybodol o bwy yw Cadeirydd y Llywodraethwyr a sut i gysylltu â nhw mewn digwyddiad o honiad neu bryder am y Pennaeth.
- Dylai holl staff fod yn ymwybodol o bwy yw'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg a sut i gysylltu â nhw os oes angen.

## 5. Gweithdrefnau

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn darparu safonau cyffredin i arwain ar ymarfer diogelu ac amddiffyn plant, ac mae fframwaith wedi'i gynnwys lle mae camau gweithredu, penderfyniadau a chynlluniau ar gyfer adroddiadau unigol am blentyn **neu oedolyn** mewn risg

yn cael eu gwneud a'u cyflawni. Maent yn rhan annatod o'r fframwaith ar gyfer diogelu a hyrwyddo lles plant **ac oedolion**.

**5.1** Yn Ysgol Gymraeg Mornant rydym yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 sydd wedi cael eu cefnogi gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru, ochr yn ochr ag unrhyw **bolisiau a gweithdrefnau** eraill sydd wedi cael eu cefnogi a'u cytuno gan y bwrdd **a Chyngor Sir y Fflint**.

- I gael mynediad at Weithdrefnau Diogelu Cymru, dilynwch y ddolen isod: <https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-cp/c1p-p2/>
- I gael mynediad at bolisiau a gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, dilynwch y ddolen: <https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/polisiau-a-gweithdrefnau/>

## **5. 2 Camau gweithredu penodol os oes gan leoliad addysg bryderon am blentyn**

Pan fo gan aelodau staff bryderon bod plentyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso, neu unrhyw niwed arall, rhaid iddynt godi'r rhain â'r UDD. **Dylent hefyd gofnodi'r pryderon a'r wybodaeth.**

**Rhaid i aelodau staff hefyd fod yn ymwybodol o bryderon diogelu ehangach ac adrodd am y rhai i'r UDD. Mae'r rhain yn cynnwys amgylchiadau fel yr amlinellir yn adrannau 7-11 o'r polisi hwn.**

Yna rhaid i'r UDD benderfynu os yw'n briodol adrodd i'r Gwasanaethau Plant a/neu'r Heddlu, o fewn 24 awr. **Gall yr UDD gysylltu â'r Gwasanaethau Plant yn uniongyrchol i gael cyngor yn ôl yr angen.**

Mae'n bwysig nodi, gall unrhyw aelod o staff hefyd adrodd am bryderon i'r Gwasanaethau Plant neu'r Heddlu yn uniongyrchol; fodd bynnag, argymhellir y dylid cysylltu â'r UDD ymhob achos lle bo hynny'n bosibl.

Pan fydd un ar gael, **dylid** hysbysu'n defnyddio Ffurflen Atgyfeirio Gogledd Cymru. **Rhaid** cynnwys gwybodaeth graidd/sylfaenol, yr hyn sy'n peri pryder ac unrhyw wybodaeth berthnasol gan yr asiantaeth.

Mae ffurflen atgyfeirio Gogledd Cymru ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol: <https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/ffurflen-atgyfeirio-gogledd-cymru-plant-a-theuluoedd/> y mae'n rhaid ei hanfon drwy e-bost at: [ChildProtectionReferral@flintshire.gov.uk](mailto:ChildProtectionReferral@flintshire.gov.uk)

Os oes pryderon uniongyrchol am ddiogelwch plentyn neu os oes amheuaeth am drosedd yn erbyn plentyn, rhaid cysylltu gyda'r gwasanaethau brys ar unwaith er mwyn diogelu'r plentyn/plant rhag y perygl o niwed difrifol.

Nid rôl yr UDD yw ymchwilio i honiadau, ond efallai y bydd adegau pan fydd y Gwasanaethau Plant/yr Heddlu yn gofyn i aelod staff egluro'r hyn a gafodd ei ddweud gan blentyn. Gwneir hyn er rhoi **cyd-destun** perthnasol i'r manylion pwysig; bydd hyn yn helpu'r unigolyn sy'n gwneud y penderfyniad mewn perthynas â chyrraedd y trothwy ac yn yr un modd, yn cadarnhau os yw niwed arwyddocaol yn bryder gwirioneddol.

Mae cadw cofnodion cywir, cryno a chlir mewn iaith syml yn rhan hanfodol o atebolrwydd cyflogai neu weithiwr proffesiynol unigol, ac yn sail i arfer da ar gyfer amddiffyn plant.

### 5.3 Cymryd rhan yn y broses amddiffyn plant


Gellir gofyn i unrhyw aelod staff sy'n rhoi gwybod am achos amddiffyn plant gwblhau rhai o'r tasgau canlynol, neu bob un ohonynt. **Dylai**'r ysgol sicrhau bod gan staff ddigon o amser ac adnoddau angenrheidiol eraill i gyflawni'r tasgau hyn yn effeithiol a dylai staff fod yn barod ac yn fodlon:

- cynorthwyo ag ymholiadau amddiffyn plant o dan adran 47 Deddf Plant 1989
- mynd i'r gynhadledd amddiffyn plant;
- darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y gynhadledd amddiffyn plant
- cyfrannu at yr asesiadau cychwynnol a'r asesiadau craidd;
- mynd i gyfarfodydd grŵp craidd.

Os bydd plentyn yn destun cynllun amddiffyn gofal a chymorth, dylid cynnwys yr UDD yn y broses o baratoi'r cynllun. Dylid nodi'n glir beth yw rôl a chyfrifoldebau'r lleoliad addysg wrth gyfrannu at gamau gweithredu i ddiogelu'r plentyn a hybu eu lles.

Efallai bydd angen cyfranogiad yr ysgol fel rhan o **Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR)** gan weithio'n agos gydag Addysg a Gwasanaethau Plant mewn amgylchiadau o'r fath. Gweler 16.1 i gael rhagor o fanylion.

### 5.4 Trosolwg o'r broses dyletswydd i adrodd (Gweithdrefnau Diogelu Cymru)



## 6. Rhannu Gwybodaeth

**6.1 Mae diogelu effeithiol yn dibynnu ar rannu gwybodaeth amserol a phriodol rhwng gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau.** Dylai'r holl staff sy'n gweithio yn ysgol Gymraeg Mornant fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth diogelu data'r DU. Rhaid i bob ysgol a choleg a gynhelir yn y DU benodi swyddog diogelu data.

Rhaid i ysgolion rannu gwybodaeth yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018, y cyfeirir atynt fel deddfwriaeth diogelu data'r DU. Un o'r amgylchiadau penodol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill. **Mae'r gyfraith yn cefnogi rhannu gwybodaeth angenrheidiol a chymesur er budd diogelu. Mae ysgol Gymraeg Mornant wedi ymrwmo i greu diwylliant lle mae staff yn hyderus i godi pryderon a rhannu gwybodaeth yn briodol. Mae staff wedi'u hyfforddi i ddeall na ddylid cadw pryderon diogelu iddynt eu hunain, a bod rhannu gwybodaeth yn ddiogel a chyfreithiol yn hanfodol er mwyn cadw plant yn ddiogel.**

**Mae Adolygiadau Ymarfer Plant (AYP) yng Nghymru ac Adolygiadau Ymarfer Diogelu Plant yn Lloegr yn gyson yn amlygu bod methiannau i gyfathrebu neu rannu gwybodaeth berthnasol wedi bod yn ffactorau allweddol mewn achosion difrifol, lle mae plant wedi profi niwed sylweddol neu, yn yr amgylchiadau mwyaf trasig, wedi marw o ganlyniad i'r cam-drin neu esgeulustod. Mae'r adolygiadau hyn yn dangos os nad yw gwybodaeth yn cael ei rhannu (yn sgil ansicrwydd, bod yn or-ofalus neu waith rhyngasiantaeth gwael) gall gyfleoedd i ddiogelu plant gael eu colli.**

Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn amlinellu'r cyfrifoldebau sefydliadol mewn perthynas â rhannu gwybodaeth sensitif. <https://www.waspi.llyw.cymru/>

Bydd yr holl staff yn Ysgol Gymraeg Mornant yn ceisio cyngor gan yr unigolyn diogelu dynodedig a/neu'r Pennaeth mewn perthynas â rhannu gwybodaeth. Dylai unigolion diogelu dynodedig arfer synnwyr cyffredin wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu, a dylent ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad. Yr ystyriaeth bwysicaf yw p'un a yw rhannu gwybodaeth yn debygol o helpu i ddiogelu ac amddiffyn y plentyn.

## 6.2 Egwyddorion

Mae yna nifer o egwyddorion a all helpu pob aelod staff ar y cyd â'r UDD wrth wneud penderfyniadau am rannu gwybodaeth:

**Angenrheidiol a chymesur** – Wrth wneud penderfyniadau ynghylch pa wybodaeth i'w rhannu, dylech ystyried faint o wybodaeth rydych chi angen ei rhyddhau. Elfen allweddol y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 yw peidio â rhannu mwy o ddata nag sy'n angenrheidiol, a dylech ystyried yr effaith a gaiff datgelu'r wybodaeth ar destun y wybodaeth ac unrhyw bobl eraill. Rhaid i'r wybodaeth fod yn gymesur â'r angen a lefel y risg.

**Perthnasol** – Dim ond gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dibenion y dylid ei rhannu gyda'r rhai y mae arnynt ei hangen. Mae hyn yn caniatáu i eraill wneud eu gwaith yn effeithiol a gwneud penderfyniadau gwybodus.

**Digonol** – Dylai'r wybodaeth fod yn ddigonol ar gyfer ei diben. Dylai'r wybodaeth fod o'r ansawdd iawn er mwyn sicrhau y gellir ei deall a dibynnu arni.

**Cywir** - Dylai'r wybodaeth fod yn gywir ac yn gyfredol a dylai wahaniaethu'n glir rhwng ffeithiau a barn. Os yw'r wybodaeth yn hanesyddol, dylid esbonio hyn.

**Prydlon** – Dylid rhannu gwybodaeth yn brydlon er mwyn lleihau'r risg o golli cyfleoedd i helpu ac amddiffyn plentyn. Mae prydlondeb yn allweddol mewn sefyllfaoedd brys ac efallai na fydd yn briodol ceisio caniatâd i rannu gwybodaeth os gallai hynny achosi oedi, ac felly roi plentyn neu berson ifanc mewn mwy o berygl o niwed. Dylai ymarferwyr sicrhau bod digon o wybodaeth yn cael ei rhannu, yn ogystal ag ystyried y brys i'w rhannu.

**Diogel** - Lle bynnag y bo modd, dylid rhannu gwybodaeth mewn ffordd briodol a diogel. Rhaid i ymarferwyr ddilyn polisi eu sefydliad ar ddiogelwch bob amser wrth drin gwybodaeth bersonol.

**Cofnod** - Dylid gwneud cofnod o benderfyniadau rhannu gwybodaeth, p'un a yw'r penderfyniad i rannu yn cael ei wneud ai peidio. Os penderfynir rhannu, dylid nodi'r rhesymau gan gynnwys pa wybodaeth sydd wedi'i rhannu a gyda phwy, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad. Os penderfynir peidio â rhannu, mae'n arfer da cofnodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn a'u trafod gyda'r sawl sydd wedi ceisio'r wybodaeth. Yn unol â pholisi cadw pob sefydliad, ni ddylid cadw'r wybodaeth yn hwy nag sydd angen. Mewn rhai amgylchiadau prin, gall hyn fod am gyfnod amhenodol, ond os felly, dylid trefnu proses adolygu yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw data'n cael ei gadw lle nad oes angen gwneud hynny.

Am fwy o wybodaeth, ewch i: Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Canllawiau anstatudol i rannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant [38137 Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: Canllaw anstatudol ar rannu gwybodaeth i ddiogelu plant \(llyw.cymru\)](https://www.waspi.llyw.cymru/)

### 6.3 Dyletswydd Cyfrinachedd

Nid yw dyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt a gellir ei dorri os yw hynny er budd pennaf y plentyn ac er budd ehangach y cyhoedd. Os yw gweithwyr proffesiynol yn pennu fod datgelu'n angenrheidiol i amddiffyn y plentyn neu blant eraill rhag wynebu risg o niwed difrifol, gellir torri cyfrinachedd.

Rhaid i bob aelod o staff ddeall na allant wneud addewid i'r plentyn i gadw cyfrinachau a allai beryglu lles neu ddiogelwch y plentyn. Mae cyfrifoldeb proffesiynol ar staff i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn dysgwyr gyda'r asiantaethau statudol dynodedig pan fo plentyn yn wynebu pryderon o ran ei les.

Mae'n bwysig bod pob aelod staff yn ymdrin â hyn mewn modd sensitif ac yn egluro i'r plentyn bod rhaid iddynt roi gwybod i'r bobl briodol all helpu'r plentyn, ond mai dim ond wrth y rhai hynny sydd angen gwybod er mwyn gallu helpu y byddant yn dweud.

Dylai staff dawelu meddwl y plentyn a dweud wrtho na fydd eraill yn yr ysgol yn cael gwybod am ei sefyllfa. Dylai staff ddeall ei bod yn debygol bod y plentyn wedi gorfod bod yn ddewr iawn i ddatgelu'r wybodaeth ac y gallent fod yn profi gwahanol emosiynau, gan gynnwys teimladau o euogrwydd, embaras, anffyddlondeb (os yw'r camdriniwr yn berson agos atynt) a chur.

Mae'n bwysig bod pob aelod staff yn ymdrin â hyn mewn modd sensitif ac yn egluro i'r plentyn bod rhaid iddynt roi gwybod i'r bobl briodol all helpu'r plentyn, ond mai dim ond wrth y rhai hynny sydd angen gwybod er mwyn gallu helpu y byddant yn dweud. Rhaid i staff ddeall ei bod yn debygol bod y plentyn wedi gorfod bod yn ddewr iawn i ddatgelu'r wybodaeth ac y gallent fod yn profi gwahanol emosiynau, gan gynnwys teimladau o euogrwydd, embaras, anffyddlondeb (os yw'r camdriniwr yn berson agos atynt) a chur.

Bydd y Pennaeth / yr unigolyn diogelu dynodedig ond yn datgelu gwybodaeth am ddysgwyr i aelodau eraill o staff os oes angen iddynt wybod.

### 6.4 Rhannu a Chofnodi Gwybodaeth Diogelu

Gall amheuron bod plentyn yn wynebu risg fod ar ffurf pryderon yn hytrach na ffeithiau hysbys. Gall pryderon am blentyn sy'n wynebu risg godi mewn gwahanol gyd-destunau, gan gynnwys os yw plentyn eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant. Mae'n bwysig bod y pryderon hyn yn cael eu cofnodi.

Fel y nodir yn y canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 2022 *'Rhaid i bob lleoliad addysg fod â system addas ar waith er mwyn helpu i fynd ati'n effeithiol i gasglu data ar blant yr amheuir eu bod yn wynebu risg.'* Ceir nifer o becynnau meddalwedd i helpu ysgolion gasglu data'n fewnol am bryderon diogelu sy'n ymwneud â phlant. Gall y pecynnau hyn helpu staff i wneud cofnod o bryderon a helpu'r UDD i nodi patrymau o gamdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed

Mewn ysgolion, cyfrifoldeb yr UDD yw cadw cofnodion manwl, cywir a diogel am blant sy'n destun pryderon diogelu. Mae'r cofnodion hyn yn gyfrinachol a dylid eu cadw ar wahân i

gofnodion eraill y dysgwr. Dylent gynnwys cronoleg o bryderon, achosion o hysbysu, cyfarfodydd, galwadau ffôn a negeseuon e-bost.

Mae ysgol Gymraeg Mornant\_ yn defnyddio CPOMS (System Rheoli Amddiffyn Plant Ar-lein) gan ei fod yn llwyfan canolog ar gyfer cofnodi holl bryderon lles, diogelu ac amddiffyn plant.

Lle bo'n briodol, ac yn unol â chanllawiau statudol a deddfwriaeth diogelu data, mae'r ysgol hefyd yn defnyddio CPOMS Engage er mwyn rhannu gwybodaeth diogelu ac amddiffyn plant yn ddiogel gyda'r awdurdod lleol. Mae CPOMS Engage yn galluogi:

- Trosglwyddo cofnodion diogelu yn brydlon ac yn ddiogel i'r awdurdod lleol
- Llwybrau archwilio llawn o'r wybodaeth a rennir ac a dderbynnir
- Rheoli cydsyniad a chyfluniadau yn unol â chyfrifoldebau diogelu data'r ysgol.

Bydd gwybodaeth ond yn cael ei rhannu os oes sail gyfreithiol i wneud hynny, gan gynnwys os oes risg diogelu i blentyn neu os oes angen rhannu er mwyn cyflawni dyletswyddau diogelu statudol yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau o dan Ddeddf Plant 1989 a 2004, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant, Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR DU) a'r Ddeddf Diogelu Data 2018. Mae rhannu gwybodaeth yn cael ei lywodraethu gan Gontract Rhannu CPOMS ffurfiol rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol, yn amlinellu cwpas, diben, a'r sail gyfreithiol ar gyfer holl gyfnewid data.

Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn caniatáu rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Un o'r amgylchiadau eithriadol sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer rhannu gwybodaeth yw atal cam-drin, esgeulustod neu niwed.

## 6.5 Trosglwyddo Cofnodion Amddiffyn Plant

Yn unol â Chadw Dysgwyr yn Ddiogel, pan fydd dysgwr yn symud i ysgol newydd, rhaid i'r UDD sicrhau bod unrhyw gofnodion diogelu plant yn cael eu copïo a'u trosglwyddo yn ddiogel i'r UDD yn yr ysgol sy'n derbyn cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r cofnodion hyn gael eu trosglwyddo ar wahân i brif ffeil y disgybl er mwyn cynnal cyfrinachedd ac yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU, Deddf Diogelu Data 2018, a Pholisi Diogelu Data'r ysgol. Dylid gofyn i'r ysgol sy'n derbyn gadarnhau eu bod wedi derbyn y cofnodion yn ddiogel. Rhaid i'r Gwasanaeth Lles Addysg hefyd gael eu hysbysu, yn arbennig os oes pryderon am bresenoldeb neu les. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yr ysgol newydd yn cael eu hysbysu am unrhyw anghenion neu risgiau diogelu, fel y gall cefnogaeth a goruchwyliaeth briodol gael ei ddarparu o'r dechrau. Mae cyfathrebu clir a phrydlon rhwng yr UDD yn y ddwy ysgol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y dysgwr yn parhau'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn ystod y cam trosglwyddo.

## 7. Y Broses Uwchgyfeirio

Diogelwch yr unigolyn, boed yn blentyn neu'n oedolyn, yw'r peth pwysicaf i'w ystyried pan gyfyd unrhyw anghydfod proffesiynol, ac wrth drafod unrhyw wahaniaeth barn dylid rhoi ystyriaeth briodol i'r risgiau a all godi i'r plentyn neu'r oedolyn.

Dylai'r holl staff yn ysgol Gymraeg Mornant fod yn ffyddiog y gall herio penderfyniadau, gan feddu ar yr hawl i herio a bod yn gyfrifol am wneud hynny er mwyn hyrwyddo arferion gorau o ran diogelu amlasiantaethol. Mae Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Datrys Anghydfod Proffesiynol a ddatblygwyd gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn rhoi'r gallu i weithwyr godi pryderon sydd ganddynt am benderfyniadau a wneir gan weithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill.

Yn y lle cyntaf, dylai gweithwyr proffesiynol geisio datrys anghydfod drwy gael trafodaeth mewn da bryd er mwyn amddiffyn y plentyn neu'r oedolyn mewn perygl rhag niwed.

**Cam 1:** Dylai'r gweithiwr proffesiynol gyda phryderon godi'r mater yn uniongyrchol gyda'r ymarferydd perthnasol; dylent gael tystiolaeth clir yn seiliedig ar resymau ar gyfer anghytuno. Rhaid i'r drafodaeth ddigwydd cyn gynted â phosibl dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

**Cam 2:** Os na ddatrysir y broblem yn ystod Cam 1, dylai'r gweithiwr gysylltu â'r goruchwyliwr / rheolwr, a dylent nhw gynnal trafodaeth gyda'r goruchwyliwr / rheolwr cyfatebol o fewn yr asiantaeth / gwasanaeth arall.

**Cam 3:** Os na ddatrysir y broblem yn ystod Cam 2, dylai'r goruchwyliwr / rheolwr adrodd am hyn i'w rheolwr gweithrediadau neu gynrychiolydd diogelu dynodedig. Rhaid i'r ddau reolwr geisio datrys y gwahaniaeth proffesiynol trwy drafodaeth

**Cam 4:** Os na gyflawnir datrysiad erbyn Cam 3, bydd Cadeirydd y BDGC (Plant/Oedolion) yn nodi Aelod Bwrdd o asiantaeth annibynnol i gadeirio cyfarfod gyda'r uwch reolwyr gyda chyfrifoldeb gweithredol am yr achos.

Bydd y cyfarfod hwn yn cyrraedd ac yn cadarnhau penderfyniad.

Bob cam o'r broses mae'n rhaid cofnodi pob gweithred a phenderfyniad ar ddu a gwyn a rhannu'r wybodaeth â'r gweithwyr perthnasol. Mae'n rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig rhwng

y gwahanol asiantaethau ynglŷn â chanlyniad cytûn i'r anghydfod, a sut i ymdrin ag unrhyw faterion sy'n parhau.

I weld y protocol yn llawn cliciwch ar y ddolen isod:

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2019/05/Protocol-Gogledd-Cymru-ar-gyfer-Datrys.pdf>

## 8. Cefnogi'r rhai mewn Perygl

**8.1.** Yn ysgol Gymraeg Mornant rydym yn cydnabod y gall plant sydd mewn perygl, sy'n cael eu cam-drin neu sy'n dyst i drais gael eu heffeithio'n andwyol gan hyn. Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau'r plant sy'n wynebu risg. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol a herfeiddiol neu gallant fynd i'w cragen.

Bydd ysgol Gymraeg Mornant yn ceisio cefnogi'r dysgwr drwy'r canlynol:

- Y deunydd a gaiff ei gynnwys yn y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant
- Ethos yr ysgol, sy'n hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i'r dysgwyr
- Polisi ymddygiad yr ysgol, sydd â'r nod o gefnogi dysgwyr diamddiffyn yn yr ysgol.
- Bydd yr ysgol yn ceisio sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac na fyddant yn cael eu beio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd
- Cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr, fel swyddogion yr awdurdod lleol, gan gynnwys y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Cymorth Meithrin neu'r Gwasanaeth Lles Addysg - Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) a gwasanaethau eirioli;
- Cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd pryder yn codi eto;
- Pan fydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau Plant.

## 8.2 Gwrth-fwlio

Yn Ysgol Gymraeg Mornant, rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd diogel a gofalgwr i bawb. Ni fyddwn yn caniatáu bwlio ar unrhyw ffurf.

Dylai staff roi gwybod am eu pryderon i'r UDD. Hyd yn oed lle nad ystyrir bod diogelu'n broblem, efallai y bydd angen i'r ysgol ddefnyddio ystod o wasanaethau allanol i gefnogi'r dysgwyr sy'n cael ei fwlio, neu fynd i'r afael ag unrhyw broblem sylfaenol sydd wedi cyfrannu at fwlio gan blentyn.

Rhaid i holl ddigwyddiadau o fwlio gael eu monitro a'u cofnodi'n gywir fel rhan o weithdrefnau diogelu'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys bwlio mewn perthynas â hiliaeth neu unrhyw nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae ysgol Gymraeg Mornant yn defnyddio CPOMS i gofnodi a monitro holl ddigwyddiadau o fwlio. Mae gan yr awdurdod lleol rôl allweddol i oruchwylio patrymau a thueddiadau mewn bwlio, gan gynnwys y rhai o natur wahaniaethol. Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio CPOMS Engage i gael mynediad at ddata perthnasol ac i lywio'r camau gweithredu priodol ac adrodd ar lefel leol.

Caiff dogfen Llywodraeth Cymru, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb: Canllawiau Statudol ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (2019) gan Lywodraeth Cymru wedi'i hadlewyrchu yn ein polisi gwrth-fwlio sydd ar gael yma ac ar wefan ein hysgol. Ac yn Swyddfa yr ysgrifenyddes.

## 8.3 Cyswllt Corfforol gyda Dysgwyr (ymyrraeth / ataliaeth gorfforol)

Dan adran 93 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 gall aelodau staff ysgol ddefnyddio'r cyfryw rym ag sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau er mwyn atal plentyn neu berson ifanc rhag gwneud, neu barhau i wneud, unrhyw un o'r canlynol:

- cyflawni unrhyw drosedd (neu, yn achos dysgwyr sydd o dan oed cyfrifoldeb troseddol, rhywbeth a fyddai'n drosedd petai dysgwyr hŷn yn ei gyflawni)
- achosi anaf personol i unrhyw unigolyn (gan gynnwys hunan-niwed i'r dysgwyr) neu achosi difrod i eiddo unrhyw unigolyn
- fod yn niweidiol i drefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith dysgwyr sy'n derbyn addysg yn yr ysgol, yn ystod sesiwn addysgu neu fel arall.

Nid oes diffiniad cyfreithiol o ran pryd mae'n rhesymol defnyddio grym; mae'n dibynnu ar yr amgylchiadau penodol ymhob achos. Er mwyn i ddefnydd o rym fod yn gyfreithiol, rhaid iddo fod:

- yn gymesur â'r canlyniad y bwriedir ei atal
- y lleiafswm sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r canlyniad sydd ei angen

Ni ellid cyfiawnhau defnyddio grym i atal camymddwyn dibwys.

Fel arfer cyflawnir yr ymyrraeth neu ataliaeth gorfforol gan staff sydd wedi derbyn hyfforddiant achrededig mewn dad-ddwysau a delio'n ddiogel yn unig. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol ac anrhagweledig, gellir eu defnyddio gan aelod arall o staff a nodir o dan Adran 95 y Ddeddf, lle mae'n angenrheidiol er mwyn atal niwed neu gynnal diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys:

- unrhyw athro sy'n gweithio yn yr ysgol, ac unrhyw un arall y rhoddwyd awdurdod iddynt gan y Pennaeth i reoli neu fod yn gyfrifol am ddysgwyr.
- Mae hyn yn cynnwys: staff cefnogi sydd fel arfer yn gyfrifol am oruchwylio disgyblion fel cymorthyddion addysgu, cymorthyddion cefnogi dysgu, mentoriaid dysgu a goruchwylwyr amser cinio.
- gall hefyd gynnwys unigolion a awdurdodir dros dro gan y Pennaeth i oruchwylio dysgwyr, megis aelodau o staff a gyflogir lle nad yw eu rôl fel arfer yn cynnwys goruchwylio dysgwyr (e.e. staff arlwyio neu safle) a gwirfoddolwyr di-dâl (e.e. rhieni ar dripiâu ysgol)
- nid yw'n cynnwys prif ddisgyblion.

Mae'n rhaid i'r sawl sy'n ymarfer pŵer i ddefnyddio grym gymryd i ystyriaeth unrhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac/neu anabledd sydd gan ddysgwr.

Mae'r ysgol yn disgwyl i bob ymdrech gael ei gwneud i dawelu'r sefyllfa cyn ystyried defnyddio ymyrraeth / ataliaeth gorfforol. Mae'r strategaeth rheoli ymddygiad a ddefnyddir gan yr ysgol yn cynnwys hyfforddi staff mewn technegau dad-ddwysau a delio'n ddiogel.

Yn ysgol Gymraeg Mornant, Team Teach neu raglen achrededig gyfwerth yw'r dull a ddefnyddir - *nodwch ddull eich ysgol yma*.

Rhaid i holl ddigwyddiadau o ymyrraeth gorfforol gael eu monitro a'u cofnodi'n gywir fel rhan o weithdrefnau diogelu'r ysgol.

Mae ysgol yn defnyddio **CPOMS** i gofnodi a monitro holl ddigwyddiadau o ymyrraeth gorfforol.

Mae gan yr awdurdod lleol rôl allweddol i fonitro'r defnydd o ymyrraeth gorfforol mewn ysgolion, a defnyddir CPOMS Engage i gael mynediad at ddata perthnasol ac i lywio'r camau gweithredu priodol ac adrodd ar lefel leol.

Rhaid i holl ddigwyddiadau gynnwys cymorth dilynol priodol ar gyfer y dysgwr a'r staff ynghlwm, gan gynnwys y cyfle i fyfrio a thrafod.

Cyfeiriwch at Bolisi Ymyrraeth Gorfforol\* neu gyfwerth yr ysgol i gael mwy o wybodaeth sy'n gyson â Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol Llywodraeth Cymru 2021. Gallwch ddod o hyd i hwn swyddfa yr ysgrifenyddes.

## 8.4 Plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Gall blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan gynnwys y rhai gydag anableddau neu nam synhwyrdd, fod mewn risg uwch o gam-drin, esgeulustod a niwed. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod plant gydag ADY yn aml yn wynebu rhwystrau cyfathrebu, gwybyddol neu gymdeithasol ychwanegol a all ei gwneud yn anoddach iddynt ddatgelu pryderon neu geisio cefnogaeth (Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, 2023).

Rhaid i staff fod yn ymwybodol o'r nodweddion bregus hyn a deall y gall plant gydag ADY fod yn llai tebygol o dderbyn yr amddiffyniad a'r cymorth maent ei angen yn dilyn digwyddiadau o gamdriniaeth. Gall ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, nam ar y synhwyrdd, neu anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, hefyd gyflwyno pryderon diogelu mewn gwahanol ffyrdd, gan olygu bod angen i staff fod yn fwy gwyliadwrs ac ymatebol.

Mae gan holl staff yn ysgol ddyletswydd i sicrhau fod mesurau diogelu priodol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith ar gyfer dysgwyr gydag ADY, yn unol ag egwyddorion a nodir yng Nghod ADY Cymru (2021). Mae cydweithio agos rhwng arweinwyr diogelu, Cydlynwyr ADY, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod diogelwch a lles pob dysgwr yn cael ei flaenoriaethu.

Yn ein hysgol, y Cydlynnydd ADY yw Mrs Gwawr Closs-Griffiths sy'n gweithio'n agos gyda'r UDD er mwyn sicrhau bod dysgwyr gydag ADY yn derbyn y gefnogaeth a'r amddiffyniad priodol.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ym Mholisi ADY yr ysgol, sydd ar gael ar wefan yr ysgol neu ar gais o swyddfa'r ysgol.

## 9. Cyfrifoldebau Diogelu mewn Amgylchiadau Penodol

### 9.1 Caethwasiaeth Fodern

Mae caethwasiaeth fodern yn cynnwys masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth, caethiwed a llafur gorfodol. Mewn achosion masnachu mewn pobl, gall cam-fanteisio ddigwydd ar sawl ffurf, gan gynnwys: cam-fanteisio'n rhywiol, llafur gorfodol, caethwasiaeth, caethwasanaeth, troseddu gorfodol a thynnu organau.

Mae Awdurdodau Lleol yn Sefydliadau sy'n Ymatebwyr Cyntaf a, dan adran 52 Deddf Caethwasiaeth Fodern, mae dyletswydd statudol arnynt i roi gwybod i'r Swyddfa Gartref pan maent yn amau bod unigolyn yn ddioddefwr caethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl. Gwneir hyn drwy atgyfeirio dioddefwr at y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol neu drwy gwblhau hysbysiad i'r Swyddfa Gartref pan nad yw dioddefwr sy'n oedolyn yn rhoi caniatâd i atgyfeirio.

Mae caethwasiaeth fodern yn ffurf ar gam-drin plant a dylid dilyn gweithdrefnau diogelu / amddiffyn plant arferol bob amser mewn perthynas ag unrhyw ddioddefwr posib. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon bod plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg yn destun cam-fanteisio o unrhyw fath i'r UDD ar unwaith, a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant a allai gael eu masnachu' pan welir dangosyddion masnachu a cham-fanteisio:

<https://www.diogelu.cymru/chi/c6/c6.p3.html> <<https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p3/>>

Cafodd y Canllawiau Statudol: Caethwasiaeth Fodern: canllawiau statudol ar gyfer Cymru a Lloegr (o dan a49 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015) a chanllawiau anstatudol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon (fersiwn hygrych) ei ddiweddarau yn Awst 2025 a gall hefyd ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol:

<https://www.gov.uk/government/publications/modern-slavery-how-to-identify-and-support-victims/modern-slavery-statutory-guidance-for-england-and-wales-under-s49-of-the-modern-slavery-act-2015-and-non-statutory-guidance-for-scotland-and-northe>

## 9.2 Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE)

Mae cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn ffurf ar gam-drin rhywiol sy'n cynnwys elfen o gyfnawid. Gall unrhyw blentyn ddioddef cam-fanteisio rhywiol, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd neu rywioldeb. Gall cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd ar sawl ffurf, o berthynas lle mae pawb i'w gweld yn cydsynio lle mae rhyw yn cael ei gyfnawid am serch neu anrhegion, hyd at droseddu trefnus difrifol gan gangiau a grwpiau. Yr hyn sy'n peri iddo fod yn gam-fanteisio yw'r anghydbwysedd o bŵer sydd yn y berthynas. Mae gan y sawl sy'n cam-fanteisio wastad ryw fath o bŵer dros y dioddefwr, sy'n cynyddu wrth i'r berthynas gamfanteisiol ddatblygu.

Mae cam-fanteisio'n rhywiol yn cynnwys gwahanol raddau o orfodi, brawychu neu ddenu, gan gynnwys pwysau dieisiau gan gyfoedion i gael rhyw a bwlio rhywiol, a gall fod yn rhan o ddarlun cymhleth o faterion diogelu sy'n cydberthyn. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn bwysig cydnabod nad yw pob person ifanc y mae rhywun yn cam-fanteisio'n rhywiol arnynt yn dangos unrhyw arwyddion allanol o gam-drin o'r fath.

Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon bod plentyn yn profi unrhyw lefel o gamfanteisio i'r UDD ar unwaith, a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag cam-fanteisio'n rhywiol ar blant' i gael mwy o wybodaeth: <https://diogelu.cymru/chi/c6/c6.p10.html> <<https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p10/>>

## 9.3 Camfanteisio'n Droseddol ar Blant (CCE)

Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd o ran grym i orfodi, rheoli, trin neu dwyllo plentyn neu unigolyn ifanc o dan 18 oed. Efallai y cam-fanteisiwyd yn droseddol ar y dioddefwr hyd yn oed os ymddengys bod y gweithgaredd yn gydsyniol. Nid yw Camfanteisio'n Droseddol ar Blant yn cynnwys cyswllt corfforol bob amser; gall hefyd ddigwydd drwy ddefnydd o dechnoleg. Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn cynnwys sawl math o gamfanteisio, yn cynnwys llafur gorfodol, dwyn gorfodol, twyll budd-daliadau, troseddau meddiangar, trin a chynhyrchu cyffuriau ac achosion llinellau sirol.

Os oes gan aelod staff unrhyw bryderon bod plentyn yn dioddef o Gamfanteisio Troseddol, dylid eu hatgyfeirio at yr UDD. Os credwch chi fod plentyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag cam-fanteisio'n droseddol ar blant' i gael mwy o wybodaeth: <https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p1/>

## 9.4 Achosion o Gam-drin ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol rhwng Cyfoedion

Gall cam-drin rhywiol ddigwydd rhwng plant waeth beth yw eu hoedran a'u rhyw, ac mae iddo sawl ffurf mewn continwmm sy'n amrywio o aflonyddu rhywiol i gam-drin rhywiol drwy gyswllt corfforol (gan gynnwys cam-fanteisio rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion). Gall gamdriniaeth gan gyfoedion gynnwys plant o oedran neu grŵp oedran tebyg, tra bod ymddygiad rhywiol niweidiol arall yn gallu cynnwys gwahaniaeth oed mwy. Mae ymddygiad rhywiol plant yn bodoli ar gontinwmm eang, o ymddygiad sy'n arferol ac yn briodol yn ddatblygiadol, i ymddygiad sy'n amhriodol, problemus, camdriniol neu dreisgar ac mae'n hanfodol i staff ddeall y continwmm hwn er mwyn sicrhau bod yr ymatebion yn briodol.

Diffiniad sydd wedi'i gytuno gan Lywodraeth Cymru ar gyfer aflonyddwch rhywiol gan gyfoedion mewn lleoliadau addysgol yw: *'Unrhyw ymddygiad digroeso o natur rhywiol gan ddysgwr tuag at ddysgwr arall a all ddigwydd ar-lein ac all-lein. Mae aflonyddu rhywiol yn debygol o amharu ar urddas dysgwr, a/neu wneud iddo deimlo dan fygythiad, yn israddol neu wedi'i fychanu a/neu greu amgylchedd gelyniaethus, tramgwyddus neu rywioledig'.*

Gall staff gael gwybod (o'r tu mewn neu o du allan yr ysgol) am ymddygiadau fel:

- sylwadau rhywiol, fel adrodd straeon rhywiol, gwneud sylwadau anwedus, gwneud sylwadau rhywiol am ddillad ac ymddangosiad, a galw rhywun yn enwau rhywioledig
- 'jôcs' neu gellwair rhywiol
- ymddygiad corfforol, fel brwsio'n fwriadol yn erbyn rhywun, ymyrryd â dillad rhywun (dylai ysgolion a cholegau fod yn ystyried a yw unrhyw achos yn croesi llinell at drais rhywiol – mae'n bwysig siarad â'r dioddefwr ac ystyried ei brofiad)
- arddangos lluniau, ffotograffau neu ddarluniau o natur rhywiol
- tynnu lluniau i fyny sgertiau (sy'n drosedd)
- aflonyddu rhywiol ar-lein.

Gall aflonyddu rhywiol ar-lein fod yn achos unigol, neu'n rhan o batrwm ehangach o aflonyddu rhywiol neu drais rhywiol. Gall gynnwys:

- rhannu delweddau neu fideos noeth a hanner noeth, boed hynny â chydsyniad neu heb gydsyniad
- rhannu cynnwys cignoeth digroeso
- achosion o fwlio rhywioledig ar-lein neu sylwadau a negeseuon rhywiol digroeso, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol
- cam-fanteisio rhywiol, gorfodaeth a bygythiadau

- gorfodi eraill i rannu delweddau ohonynt eu hunain neu i gyflawni gweithredoedd nad ydynt yn gyfforddus â nhw ar-lein.

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio Ymddygiad Rhywiol Niweidiol fel: *'ymddygiad rhywiol a fynegir gan blant a phobl ifanc dan 18 oed sy'n amhriodol yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol tuag atynt eu hunain neu at eraill, neu fod yn gamdriniol tuag at blentyn, person ifanc neu oedolyn.* Mae'r diffiniad yn cynnwys ymddygiadau â chyswllt ac ymddygiadau digyswllt (er enghraifft, rhagbaratoi, arddangosiaeth, llygadu, rhannu delweddau rhywiol, neu iaith neu ymddygiad rhywiol amhriodol)'.

Mae Cynllun Gweithredu Aflonyddu Rhywiol Rhwng Cyfoedion Mewn Lleoliadau Addysg 2024 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cryfhau disgwyliadau o ran atal, dysgu proffesiynol, addysg rhyngberthnasau iach trwy'r Cod ACRh), a diogelwch ar-lein.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i ddiogelu holl ddysgwyr a chreu amgylchedd diogel a pharchus, nad yw'n goddef unrhyw ffurf o aflonyddu rhywiol neu ymddygiad rhywiol niweidiol. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae'r Polisi Diogelu yn cynnwys disgwyliadau clir a champau gweithredu i fynd i'r afael ag ymddygiad o'r fath. Mae'r dull yn ysgol Gymraeg Mornant yn cynnwys:

- Darparu diffiniadau clir o aflonyddu'n rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol, gan gynnwys enghreifftiau o ymddygiad gyda chyswllt a heb gyswllt, yn ogystal ag ymddygiad a all ddigwydd ar-lein neu drwy lwyfannau digidol.
- Cynnig mecanweithiau diogel a hygyrch i ddysgwyr adrodd am bryderon, gan gynnwys y dewis i adrodd yn anhysbys lle bo'n briodol, fel bod dysgwyr yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi i ddatgelu digwyddiadau.
- Sicrhau bod cymorth priodol i ddioddefwyr, a all gynnwys mynediad at ofal bugeiliol, gwasanaethau cwnsela, cynlluniau diogel neu addasiadau rhesymol er mwyn helpu'r dysgwr i deimlo'n ddiogel a chael eu cefnogi o fewn amgylchedd yr ysgol.
- Gweithredu ymyraethau cefnogol a chymesur i ddysgwyr sydd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, gan gydbwysu'r angen i ddiogelu gyda chydabyddiaeth o'u hanghenion datblygiadol a phwysigrwydd addysg, myfyrio ac adfer.
- Adolygu polisiau diogelu, gweithdrefnau a data digwyddiadau yn rheolaidd er mwyn monitro patrymau neu dueddiadau, asesu effeithiolrwydd ein hymatebion a chanfod meysydd ar gyfer gwella.
- Darparu staff gyda dysgeidiaeth broffesiynol ar adnabod, atal ac ymateb i aflonyddwch rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion e.e. Adnodd Goleuadau Traffig Brook / Hyfforddiant Ymddygiad Rhywiol Niweidiol NSPCC.

Dylai unrhyw bryderon bod dysgwr, plentyn neu oedolyn mewn perygl yn profi neu'n ymgysylltu mewn Ymddygiad Rhywiol Niweidiol gael ei adrodd ar unwaith i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig, a dylid gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os yw plentyn yn wynebu risg uniongyrchol i niwed, rhaid cysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol' i gael rhagor o wybodaeth:

<https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p7/>

Mae'r 'Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, cam-fanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion' yn rhoi adnoddau ymarferol i leoliadau addysg er mwyn atal ac ymateb i achosion o gam-drin rhywiol, cam-fanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion sy'n digwydd tu fewn a thu allan i'r ysgol. Gweler y ddolen isod:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/canllawiau-i-leoliadau-addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf>

## 10. Cam-drin Domestig, Trais ar sail Rhywedd, Trais Rhywiol ac Arferion Diwylliannol Niweidiol

### 10.1 Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant yn Ysgol fod yn wyladwrs o'r gydberthynas gyson rhwng cam-drin domestig a cham-drin ac esgeuluso plant. Lle ceir tystiolaeth o gam-drin domestig, dylid ystyried y goblygiadau i unrhyw blant yn y cartref, gan gynnwys y posibilrwydd y gallai'r plant eu hunain fod yn dioddef trais neu fath arall o niwed.

Mae'r ddogfen 'Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gyhoeddwyd yn 2019 gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r lefel briodol o hyfforddiant i staff addysg. Rhaid i bob aelod o staff yn Ysgol Gymraeg Mornant gwblhau hyfforddiant Grŵp 1 - VAWDASV sydd ar gael ar y Llwyfan Dysgu ar ffurf modiwl e-Ddysgu i holl weithwyr Cyngor Sir y Fflint. Dylid ei adnewyddu **bob** 3 blynedd. Rhaid i bob aelod newydd o staff gwblhau'r cwrs hwn o fewn tymor cyntaf eu cyflogaeth.

Mae angen o leiaf hyfforddiant Grŵp Gofyn a Gweithredu 2 ar gyfer UDD, a dylai un UDD fynychu'r cwrs Gofyn a Gweithredu o bobl ysgol (a'i adnewyddu **o fewn** 3 blynedd).

Lle bo gan staff yn Ysgol Gymraeg Mornant sail resymol i gredu bod plentyn, mewn perygl o, yn dioddef o, neu'n byw mewn cartref â thrais a chamdriniaeth, neu fod oedolyn mewn perygl, dylid rhoi gwybod i'r unigolyn diogelu dynodedig ar unwaith a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant yr effeithir arnynt gan achosion o gam-drin domestig' am fwy o wybodaeth: <https://diogelu.cymru/chi/c6/c6.p4.html>

Mae'r llinell gymorth Byw Heb Ofn yn llinell gymorth gyfrinachol sydd am ddim i'w defnyddio ac yn weithredol 24 awr y dydd. Mae'n cynnig cyngor a chymorth i **bob un** sy'n dioddef cam-drin a thrais, ni waeth beth fo'u rhywedd na'u cyfeiriadedd rhywiol, ac i 'unigolion eraill sy'n pryderu', megis ymarferwyr, aelodau o'r teulu, ffrindiau, cydweithwyr a'r cyhoedd. Gall ymarferwyr gael cyngor a chyfarwyddyd gan Llinell Gymorth Byw Heb Ofn (0808 8010 800).

### 10.2 Ymgrych Encompass

Ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru, mae ysgol **Gymraeg mornant** yn cymryd rhan yn Ymgyrch Encompass i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o neu'n dyst i ddigwyddiad o gam-drin domestig. Mae hon yn bartneriaeth ymyrraeth gynnar a diogelu rhwng yr Heddlu ac addysg sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n profi digwyddiadau o Gam-drin Domestig. I gael mwy o wybodaeth, ewch i: <https://www.operationencompass.org/>

Yn ysgol **Gymraeg Mornant** y **Pennaeth / UDD** (dilëwch fel bo'n briodol) yw'r **cyswllt** ysgol ar gyfer Ymgyrch Encompass **a chânt eu hysbysu yn uniongyrchol os yw'r Heddlu wedi cael eu galw i ddigwyddiad domestig lle'r oedd plentyn yn bresennol. Bydd y wybodaeth a gaiff ein hysgol hefyd yn galluogi staff i baratoi ar gyfer y plentyn yn yr ysgol a sicrhau eu bod yn cael y cymorth y maent ei angen. Mae'r wybodaeth gan Operation Encompass yn cael ei chadw yn unol â phob darn arall o wybodaeth gyfrinachol am ddiogelu ac amddiffyn plant.**

Am ragor o gefnogaeth, cysylltwch â'r Uwch Gynghorydd Dysgu - Ymgysylltu neu'r Uwch Weithiwr Cymdeithasol Addysg.

### 10.3 Priodi dan Orfod

Mae priodi dan orfod yn arfer diwylliannol annerbyniol sy'n fath o drais yn erbyn genethod a merched ac mae'n anghyfreithlon yn y DU. Mae priodas dan orfod dan orfod yn drosedd gudd, lle bydd teuluoedd a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd, gan gredu eu bod yn parchu traddodiadau diwylliannol ac yn amddiffyn 'anrhydedd' y teulu a'r gymuned. Mae teuluoedd o'r farn eu bod nhw'n amddiffyn eu plentyn rhag perthnasoedd 'anaddas' neu eu bod nhw'n adeiladu teuluoedd cryfach ac yn amddiffyn credoau diwylliannol neu grefyddol.

Os oes amheuaeth bod plentyn mewn perygl o drais ar sail anrhydedd neu briodas dan orfod, neu os oes oedolyn yn wynebu risg, dylid dweud wrth yr UDD ar unwaith a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelau' am fwy o wybodaeth: <https://diogelu.cymru/chi/c6/c6.p2.html>

### 10.4 Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Mae adran 5B Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 yn cyflwyno dyletswydd adrodd gorfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i athrawon yng Nghymru a Lloegr roi gwybod i'r Heddlu am achosion hysbys o anffurfio organau cenhedlu benywod ymhlith merched dan 18 oed a ganfyddir ganddynt yn ystod eu gwaith proffesiynol. Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref, 'Multi-agency statutory guidance on female genital mutilation' (2020), yn nodi'n glir bod y ddyletswydd yn berthnasol i athrawon cymwys neu unigolion a gyflogir i wneud gwaith addysgu mewn ysgolion a cholegau, ac ymarferwyr addysg a reoleiddir gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

Bydd pob aelod o staff yn Ysgol Gymraeg Mornant yn dod yn gyfarwydd â diwylliant a chredoau teuluoedd yn ein cymuned. Ni ddylai arferion niweidiol posib gael eu diystyru ar sail sensitifrwydd diwylliannol a dylai staff ymgysylltu ag arferion megis anffurfio organau

cenhedlu benywod a phriodas dan orfod. Dylai staff fod yn ymwybodol y gellid mynd â merched dramor yn ystod gwyliau'r haf er mwyn anffurfio organau cenhedlu benywod, gan y gall triniaethau gymryd hyd at bedair wythnos i wella. Felly mae'n bosibl y gallai'r llawdriniaeth gael ei chyflawni cyn i ferch ddychwelyd i'r ysgol ar ddechrau tymor yr hydref.

Os oes amheuaeth bod plentyn mewn perygl o FGM, neu os oes oedolyn yn wynebu risg, dylid dweud wrth yr UDD ar unwaith a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Darllenwch GANLLAW YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag arferion niweidiol sy'n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoelau' am fwy o wybodaeth: <https://diogelu.cymru/chi/c6/c6.p2.html>

## 11. Diogelwch ar-lein

**11.1 Mae Ysgol \_\_\_\_\_** Gymraeg Mornant\_\_ wedi ymrwymo i hybu defnydd diogel a chadarnhaol o'r rhyngwyd i blant a phobl ifanc. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio **technolegau cymdeithasol priodol** yn llawn i ymgysylltu â dysgwyr a gwella deilliannau dysgu, gan ddatblygu'r dysgwyr i fod yn ddinasyddion digidol hyderus a medrus.

Nod yr Ysgol yw meithrin gwybodaeth, sgiliau a hyder ymhlith dysgwyr o ran diogelwch ar-lein. Bydd ein hysgol yn cyflawni hyn drwy:

Roi'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar waith, a gwreiddio sgiliau, gwybodaeth ac agweddau digidol ar draws y cwricwlwm a'u cynnwys mewn gwersi.

- Rhaglen addysg wedi'i chynllunio ar ddiogelwch ar-lein sydd:
  - yn cael ei haddysgu ar draws pob grŵp oedran ac yn datblygu wrth i ddysgwyr dyfu a datblygu
  - yn gylchol ac yn flaengar yn hytrach na sesiwn diogelwch ar-lein untro
  - cefnogi dysgwyr i ddatblygu strategaethau ar gyfer delio â'r byd ar-lein a datblygu gwytnwch
  - yn cael ei hymgorffori ar draws y cwricwlwm
  - yn defnyddio mentrau a chyfleoedd cenedlaethol perthnasol megis Diwrnod Defnyddio'r Rhyngwyd yn Fwy Diogel (Chwefror) ac Wythnos Gwrth-fwllo (Tachwedd).
- Defnyddio adnoddau priodol a chyfredol.
- Defnyddio adnoddau, gan gynnwys ymwelwyr gan ddarparwyr allanol, yn briodol i gefnogi darpariaeth fewnol ac ychwanegu ati.
- Priodol ar gyfer dysgwyr o oedrannau a galluoedd gwahanol, megis dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, neu'r rheini sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.
- Dysgwyr yn gallu cofio, esbonio a defnyddio addysg ar ddiogelwch ar-lein.
- Athrawon yn cael hyfforddiant priodol, gan sicrhau bod arbenigedd a dealltwriaeth yn sail i'w haddysgu.

Mae pob aelod o staff yn Ysgol Gymraeg Mornant yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â diogelu dysgwyr yng nghyd-destun diogelwch ar-lein. Mae cydgyfrifoldeb ar yr holl staff i gadw at Bolisi Defnydd Derbyniol Sir y Fflint ar y cyd â Pholisi Diogelwch Ar-Lein yr ysgol (neu gyfatebol).

Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at y **Polisi Defnydd Derbyniol / Polisi Diogelwch Ar-Lein**, gallwch ddod o hyd iddynt yma **Yn swyddfa yr Ysgrifenyddes**.

Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd Gyngor y DU ar gyfer Diogelwch ar y Rhyngwrdd ganllawiau i helpu cyrff llywodraethu i herio eu hysgolion i ddiogelu eu dysgwyr ar-lein yn effeithiol:

<https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/polisiau-a-gweithdrefnau-diogelwch-ar-lein/pum-cwestiwn-allweddol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-er-mwyn-helpu-i-herio-ysgolion-a-cholegau-i-ddiogelu-eu-dysgwyr-yn-effeithiol>

## 9.1 360 Degree Safe Cymru

Mae 360 Degree Safe Cymru yn adnodd hunan-adolygu rhyngweithiol i ysgolion yng Nghymru allu asesu a gwella eu harferion a pholisïau diogelwch ar-lein. Mae'r adnodd ar gael trwy Hwb trwy fewngofnodi a dewis dolen 360 Degree Safe Cymru ar y dudalen hafan:

<https://360safecymru.org.uk/dashboard/>

Mae defnyddio'r adnodd yn cefnogi ysgolion i:

- Adolygu a diweddarau polisïau diogelwch ar-lein;
- Gwella addysg diogelwch ar-lein ar gyfer dysgwyr a staff;
- Gwella mesurau diogelwch technegol;
- Rheoli'r defnydd o dechnolegau symudol a chyfrifoldeb cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r adnodd yn darparu cynlluniau gweithredu, yn awgrymu camau nesaf ac yn olrhain cynnydd dros amser. Mae tystiolaeth yn dangos fod ysgolion sy'n defnyddio'r adnodd yn arddangos gwelliant nodedig mewn ymarferion diogelwch ar-lein yn gyson.

Anogir yn gryf i holl ysgolion Sir y Fflint:

- Gofrestru ac ymgysylltu gyda'r adnodd 360 Degree Safe Cymru;
- Cwblhau 28 agwedd o'r adolygiad;
- Cynnal adolygiad llawn bob blwyddyn o leiaf.

Yn ysgol Gymraeg Mornant rydym wedi gwneud y cynnydd canlynol gan ddefnyddio'r adnodd 360 Degree Safe Cymru:

e.e. cwblhau X allan o 28 agwedd, gwella datblygiad polisi, gweithredu hyfforddiant staff newydd, diweddarau cytundebau defnydd derbyniol, ac ati. Nodwch fanylion y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r adnodd 360 Degree Safe.

## 11.3 Ffrydio Byw

Gall ysgolion ystyried ffrydio byw yn ddull ymarferol a phriodol mewn rhai amgylchiadau. Rhaid i ddiogelu fod yn rhan annatod o ddarpariaeth gwersi sy'n cael eu ffrydio'n fyw i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu diogelu'n briodol. Yn Ysgol Gymraeg Mornantrhydym yn cynnal sesiynau ffrydio byw / neu fideo-gynadledda a bydd staff yn cadw at y canllawiau Ffrydio byw a fideo-gynadledda: arferion ac egwyddorion diogelu a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020:

<https://hwb.gov.wales/parthau/cadwn-ddiogel-ar-lein/ffrydio-byw-a-fideo-gynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu/> diweddarwyd ym mis Mawrth 21.

#### **11.4 Cam-drin Ar-lein (gan gynnwys rhannu lluniau noeth a hanner noeth)**

Mae cam-drin ar-lein yn cynnwys unrhyw ffurf o gam-drin neu gamfanteisio a hwylusir drwy dechnolegau digidol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r defnydd o gyfrifiaduron, ffonau clyfar, dyfeisiau llechen, teclynnau gemau, a dyfeisiau eraill ar y rhyngwrdd. Gall gam-drin o'r fath ddigwydd ar draws ystod o lwyfannau ar-lein, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau negeseua, amgylcheddau gemau a gwasanaethau ffrydio byw. Gall gam-drin ar-lein ddod i'r amlwg mewn nifer o ffyrdd niweidiol, gan gynnwys:

- Seiberfwlio, lle caiff plentyn ei aflonyddu, bygwth neu fychanu trwy lwyfannau digidol;
- Aflonyddu rhywiol ar-lein, gan gynnwys negeseuon rhywiol digroeso, sylwadau neu ymddygiad rheolaethol;
- Rhannu neu orfodaeth i rannu delweddau anwedus, y cyfeirir ato fel arfer fel 'sextio';
- Bod yn agored i, neu rannu pornograffi, yn arbennig pan gaiff ei rannu neu weld gan blant dan oed;
- Cam-drin a cham-fanteisio'n rhywiol ar-lein, gan gynnwys ymddygiad rheolaethol neu dwyllodrus gyda'r bwriad o gaffael cynnwys, cyswllt neu ymddygiad rhywiol;
- Meithrin perthynas amhriodol, lle mae oedolyn yn meithrin perthynas gyda phlentyn gyda'r bwriad o gamfanteisio neu eu cam-drin;
- Radicaleiddio ar-lein, lle mae plant yn agored i ideolegau eithafol, gyda'r bwriad o ddylanwadu eu credoau neu weithredoedd;
- Camfanteisio'n Droseddol ar Blant, lle caiff plant eu gorfodi i mewn i weithgarwch anghyfreithlon trwy ddulliau digidol.

Mae meithrin perthynas amhriodol, yn benodol, yn broses bwriadol lle mae'r cyflawnwyr yn ceisio ennill ymddiriedaeth plentyn, yn aml trwy gyfathrebu ar-lein am amser. Mae natur llwyfannau digidol yn golygu y gall gyflawnwyr gael mynediad at blant yn haws a gweithredu yn anhysbys.

Diffinnir rhannu delweddau noeth a hanner noeth fel 'creu a/neu rannu delweddau, fideos neu ffrydiau byw noeth neu hanner noeth gan bobl ifanc o dan 18 oed'. Gallai hyn ddigwydd ar y cyfryngau cymdeithasol, platfformau chwarae gemau, apiau sgwrsio neu fforymau.

Mae'r rhan fwyaf o achosion o greu a rhannu delweddau noeth neu hanner noeth yn digwydd y tu allan i'r ysgol, ond dyma lle mae digwyddiadau'n aml yn dod i'r amlwg. Gall yr ymddygiad hwn wneud pobl ifanc yn agored i risgiau sy'n cynnwys rhannu delweddau heb gydsyniad, codi cywilydd, bwlio a'u gwneud yn fwy agored i flacmel a gorfodaeth neu gamfanteisio rhywiol. Mae greu a rhannu delweddau rhywiol o bobl ifanc dan 18 oed yn anghyfreithlon. Mae ymateb yn gyflym ac yn hyderus yn bwysig i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu, eu cefnogi a'u haddysgu.

#### 11.4.1 Ymateb Diogelu

Rhaid i unrhyw bryder, amheuaeth neu ddatgeliad yn ymwneud â cham-drin gwirioneddol neu bosibl ar-lein, gael ei adrodd ar unwaith i UDD yr ysgol a dylid gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Os credir bod y plentyn mewn risg uniongyrchol o niwed, dylid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith.

#### 11.4.2 Delio â Dyfeisiau a Thystiolaeth Ddigidol

Mewn achosion lle mae tystiolaeth ddigidol (megis negeseuon, delweddau neu gofnodion sgysiau), rhaid glynu at y gweithdrefnau canlynol:

- Peidiwch â gofyn neu annog y plentyn neu unrhyw unigolyn arall i anfon neu rannu unrhyw ddelweddau neu fideos anwedus.
- Ni ddylai staff, o dan unrhyw amgylchiadau, anfon deunyddiau o'r fath eu hunain, gan gynnwys i'r Heddlu, oherwydd gall wneud hynny fod yn drosedd o dan gyfraith y DU.
- Peidiwch â dileu, addasu neu darfu gydag unrhyw gynnwys neu ffeiliau ar ddyfais.
- Sicrhewch fod y ddyfais yn ei stad bresennol a sicrhewch ei fod yn cael ei gadw'n ddiogel nes y gellir ei basio i'r awdurdodau priodol.
- Lle bo'n bosibl, casglwch unrhyw wybodaeth fynediad megis cyfrineiriau neu godau PIN, oherwydd gall hyn gynorthwyo ymchwiliad dilynol yr Heddlu.

Ni ddylai staff yr ysgol geisio cynnal eu hymchwiliad eu hunain i gam-drin ar-lein honedig. Cyfrifoldeb y staff yw adrodd pryderon yn briodol a gweithredu yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Pholisi Diogelu'r Ysgol.

Cyfeiriwch at GANLLAWIAU YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant yr effeithir arnynt gan achosion o gam-drin domestig' <https://diogelu.cymru/cy/chi-i/chi-i-c6/c6-p6/>

A chanllaw Llywodraeth Cymru: 'Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc - canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg' i gael rhagor o wybodaeth:

<https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/sharing-nudes-and-semi-nudes-responding-to-incidents-and-safeguarding-children-and-young-people>

## 12. Cydlyniant Cymunedol - Atal Radicaleiddio

Yn ysgol Ysgol Gymraeg Mornant, rydym yn cydnabod y gall amlygiad at safbwyntiau, deunyddiau neu ddylanwadau eithafol gael effaith ar les, diogelwch a datblygiad plant a phobl ifanc. Mae atal eithafiaeth a radicaleiddio yn cael ei ystyried yn fater diogelu, ac eir i'r afael â hyn o fewn y polisi diogelu.

Cydnabyddwn ymhellach y gall fethiant i ganfod, herio neu ymyrryd mewn ymateb i safbwyntiau eithafol roi dysgwyr mewn risg. Felly, rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae ideolegau niweidiol yn cael eu herio, a lle caiff dysgwyr eu cefnogi i ddatblygu gwytnwch, meddwl yn feirniadol a pharch tuag at eraill.

### 12.1 Y Ddyletswydd Prevent

O dan y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, mae amrywiaeth o awdurdodau penodol - yn cynnwys ysgolion a gynhelir, ysgolion arbennig a ariennir nas cynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, sefydliadau addysg pellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phrifysgolion - yn cael eu rhoi o dan ddyletswydd statudol i "roi sylw dyledus i'r angen o atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth". Gelwir hyn yn Ddyletswydd Prevent.

Yng Nghymru, mae gweithrediad y Ddyletswydd Prevent wedi'i lywio gan Ganllawiau Dyletswydd Prevent Cymru (Y Swyddfa Gartref) ac yn gweithio ar y cyd â fframweithiau diogelu ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a'r Cwricwlwm i Gymru.

Prevent yw un o'r pedwar piler o strategaeth gwrthderfysgaeth Llywodraeth y DU (CONTEST), sy'n cynnwys: Prevent, Pursue, Protect, and Prepare. Mae'r agwedd Prevent yn fenter diogelu sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar er mwyn atal unigolion rhag dod yn rhan o derfysgaeth neu gefnogi ideolegau eithafol. Nod y Strategaeth Prevent yw:

- Herio ideolegau eithafol, gan gynnwys y rhai sy'n hyrwyddo trais neu gasineb;
- Tarfu ar weithgareddau unigolion neu grwpiau sy'n hyrwyddo radicaleiddio neu derfysgaeth;
- Cefnogi unigolion diamddiffyn a all fod mewn risg o gael eu tynnu i mewn i ymddygiad neu gredoau eithafol;
- Cryfhau gwytnwch a chydlyniant cymunedol, yna arbennig trwy addysg a thrafodaeth agored;

### 12.2 I ysgolion mae hyn yn golygu:

- Diogelu dysgwyr rhag eithafiaeth a'r risg o radicaleiddio yn yr un modd â staff yn diogelu plant a phobl ifanc rhag mathau eraill o niwed a cham-drin.
- Mae holl staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Prevent;
- Mae staff yn cael eu hyfforddi i ganfod arwyddion diamddiffyniad i radicaleiddio;
- Mae llwybrau atgyfeirio clir mewn lle, sy'n cyd-fynd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac mewn cysylltiad â phaneli sianel neu'r arweinydd Prevent yn yr awdurdod lleol neu'r Heddlu;
- Mae Prevent yn cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n briodol i'r Cwricwlwm i Gymru, gan hyrwyddo meddwl yn feirniadol, trafodaeth barchus a gwytnwch digidol;
- Mae dysgwyr gyda'r offer i herio syniadau eithafol ac adnabod cam wybodaeth neu radicaleiddio ar-lein.

### 12.3 Dulliau Addysgu

Bydd ein hysgol yn creu amgylchedd diogel lle gall plant ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol, a dysgu sut i herio'r syniadau hyn. Dylid defnyddio cyfleoedd yn y cwricwlwm i archwilio a herio'r pynciau hyn ac i hybu gwerthoedd democratiaeth, parchu'r naill a'r llall, a bod yn oddefgar tuag at wahanol grefyddau a chredoau.

Yn Ysgol Gymraeg Morna byddwn yn:

- hyrwyddo gwerthoedd democratiaeth, rheolau'r gyfraith, rhyddid unigolion a pharch a goddefgarwch gwahanol ffydd a chredoau at ei gilydd.
- addysgu ac annog dysgwyr i barchu'r naill a'r llall a pharchu a goddef gwahaniaeth, yn enwedig rhai â ffydd wahanol neu ddim ffydd.
- sicrhau bod ein dulliau addysgu yn helpu ein dysgwyr i feithrin gwytnwch tuag at eithafiaeth a sefydlu synnwyr positif o hunaniaeth drwy ddatblygu meddwl beirniadol.
- sicrhau bod staff wedi'u harfogi i adnabod eithafiaeth a bod ganddynt ddigon o sgiliau a hyder i'w herio
- gweithio gyda phartneriaid, teuluoedd a chymunedau lleol yn ein hymdrechion i sicrhau bod ein hysgol yn deall ac yn croesawu ein cyd-destun a'n gwerthoedd lleol i herio safbwyntiau eithafol a helpu i ehangu profiadau ein dysgwyr
- cyflawni ein cyfrifoldeb mwyaf sylfaenol sef i gadw ein dysgwyr yn ddiogel a'u paratoi ar gyfer bywyd mewn Cymru fodern, aml-ddiwylfiant a'r gymuned ryngwladol ehangach.
- Darparu mannau diogel lle gall dysgwyr ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg terfysgaeth a dysgu sut i herio'r syniadau hyn
- Sicrhau bod yr holl staff yn darparu cyflwyniad cytbwys ar faterion gwleidyddol.

## 12.4 Defnyddio Asiantaethau a Siaradwyr Allanol

Yn Ysgol Gymraeg Mornant mae'n bosibl y byddwn yn dewis defnyddio asiantaethau a siaradwyr allanol i gyfoethogi profiadau ein dysgwyr a byddwn yn asesu eu bod yn addas er mwyn sicrhau:

- bod y negeseuon sy'n cael eu cyfathrebu i'r dysgwyr yn gyson ag ethos yr ysgol ac nad ydynt yn gwthio unrhyw gymunedau, grwpiau nac unigolion i'r cyrion
- nad yw negeseuon yn ceisio clodfori gweithgarwch troseddol neu eithafiaeth dreisgar neu geisio radicaleiddio dysgwyr drwy safbwyntiau eithafol neu gul am ffydd, crefydd neu ddiwylliant neu ideolegau eraill
- bod yr holl weithgareddau wedi eu rheoli'n dda, eu goruchwyllo'n llawn ac yn destun gweithdrefnau diogelu cadarn
- bod yr holl weithgareddau'n cael eu gwerthuso i sicrhau eu bod yn effeithiol.

## 12.5 Hyfforddiant Prevent

Mae'n hanfodol bod staff yn gallu adnabod dysgwyr a allai fod yn agored i gael eu radicaleiddio, a'u bod yn gwybod beth i'w wneud ar ôl dod o hyd iddynt. Rhaid i holl aelodau staff a Llywodraethwyr gwblhau'r Hyfforddiant Dyletswydd Prevent y Swyddfa Gartref: Cwrs Ymwybyddiaeth 1 - Dysgu sut i gefnogi pobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio, unwaith bob 3 blynedd.

Ar gyfer y rhai mewn rolau lle mae angen iddynt wneud atgyfeiriadau / rolau uwch, rhaid iddynt gwblhau cwrs Ymwybyddiaeth 1: cwrs Ymwybyddiaeth a Chwrs 2: Cwrs Atgyfeirio. **Ystyrir yn arfer da i'r UDD gwblhau Cwrs 3: Sianel, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r broses** a gellir hefyd cwblhau cwrs Gloywi o fewn cyfnod o dair blynedd.

Gellir cael mynediad at yr holl gyrsiau fel modiwl e-ddysgu ar y ddolen isod:  
<https://www.support-people-vulnerable-to-radicalisation.service.gov.uk/portal>

Bydd yr unigolyn diogelu dynodedig yn mynychu cyrsiau hyfforddi priodol a pherthnasol o ran diogelu plant ac oedolion. Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ar eithafiaeth a radicaleiddio a'i oblygiadau o ran diogelu **e.e. cyrsiau ar gael trwy'r Adran Addysg**.

Wrth ddiogelu dysgwyr rhag eithafiaeth a radicaliaeth, bydd llywodraethwyr, staff a gwirfoddolwyr yr ysgol yn gwylio ac yn gwrando am:

- Ddatgeliad gan ddysgwyr eu bod wedi dod i gysylltiad â gweithredoedd, safbwyntiau neu ddeunyddiau eithafol;
- Graffiti, symbolau, ysgrifen neu waith celf yn hyrwyddo negeseuon neu ddelweddau eithafol;

- Adroddiadau am newidiadau mewn ymddygiad, grŵp ffrindiau neu weithredoedd a cheisiadau am gymorth;
- Adroddiadau gan ysgolion partner, gwasanaethau awdurdodau lleol a'r Heddlu am faterion sy'n effeithio ar ddisgyblion mewn ysgolion neu leoliadau eraill;
- Disgyblion, staff, rhieni neu ymwelwyr yn mynegi barn sy'n deillio o syniadaeth a naratifau eithafol;
- Defnydd o dermau eithafol neu 'gasineb' i eithrio pobl eraill neu i ysgogi trais;
- Diffyg goddefgarwch i wahaniaethau;
- Ymdrechion i orfodi safbwyntiau neu arferion eithafol ar bobl eraill;
- Safbwyntiau sy'n erbyn y Gorllewin neu yn erbyn Prydain;
- Defnydd o'r rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol (gyda'r ddealltwriaeth eu bod yn cael eu defnyddio gan eithafwyr a therfysgwyr i hyrwyddo eu hideoleg a recriwtio neu radicaleiddio pobl ifanc).

## 12.6 Adrodd am Bryder

Os ydych chi'n credu bod rhywun mewn risg o gael eu radicaleiddio, gallwch eu helpu nhw gael cefnogaeth a'u hatal rhag dod yn rhan o derfysgaeth a gweithgareddau treisgar posibl trwy adrodd am eich pryderon yn uniongyrchol i'r UDD.

Os credwch chi fod plentyn neu oedolyn yn wynebu risg uniongyrchol o niwed, dylech gysylltu â'r Heddlu.

Os oes angen atgyfeiriad Prevent, dylai'r UDD neu'r Pennaeth gyflawni hyn ar-lein trwy'r ddolen isod:

**Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Prevent Cymru Gyfan**

<https://digitalservices.south-wales.police.uk/cy/ffurflen-atgyfeirio-prevent-genedlaethol/>

Os bydd pryderon ychwanegol am unigolyn, er enghraifft, pryderon amddiffyn plant, **bydd angen atgyfeirio'r rhain at y Gwasanaethau Plant.**

Cyfeiriwch at GANLLAWIAU YMARFER CYMRU GYFAN: 'Diogelu plant rhag Radicaleiddio' am fwy o wybodaeth <https://diogelu.cymru/chi/c6/c6.p12.html>

## 12.7 Llogi Lleoliad

***Mae'r adran hon yn gymwys i ysgolion sy'n llogi eu cyfleusterau i sefydliadau allanol, gan gynnwys grwpiau cymunedol, unigolion preifat ac elusennau cofrestredig.***

Yn Ysgol Gymraeg Mornant, rydym wedi ymrwymo i sicrhau na chaiff ein cyfleusterau gael eu defnyddio gan unigolion neu sefydliadau lle gall eu credoau, gweithredoedd neu

gysylltiadau, gyfrannu tuag at radicaleiddio eraill neu hyrwyddo safbwyntiau sydd i'r gwrthwyneb i egwyddorion cydraddoldeb, cynhwysiant a diogelu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw weithgareddau a all dynnu unigolion i mewn i derfysgaeth, fel y diffinnir gan y Ddyletswydd Prevent.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod proses archebu cadarn a thryloyw mewn lle. Mae hyn yn cynnwys:

- Dilysu unigolion neu sefydliadau sy'n gwneud cais i logi eiddo'r ysgol;
- Sicrhau telerau ac amodau llogi;
- Hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gyfer staff perthnasol i adnabod ac adrodd am bryderon;
- Gweithredu'n brydlon a phriodol os oes rheswm i gredu bod grŵp neu ddigwyddiad arfaethedig yn peri risg.

Rhaid i holl drefniadau llogi lleoliad gydymffurfio â'r gweithdrefnau a amlinellir ym Mholisi Llogi Lleoliad yr ysgol sydd yn – Ffeil polisiau yn swyddfa yr ysgol.

## 13. Diogelwch Safle'r Ysgol

### 13.1 Rheoli Mynediad

Yn yr ysgol rydym wedi ymrwymo i gynnal amgylchedd ysgol ddiogel trwy ystod o fesurau rheoli mynediad gofalus. Mae'r mesurau hyn yn cael ei hadolygu a'i haddasu'n rheolaidd yn unol â'n Hasesiad Risg Diogelwch y Safle, a ragwelir gan dîm arweinyddiaeth yr ysgol a'i gwblhau'n unol â chanllawiau iechyd a diogelwch yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru.

Mae asesiad cynhwysfawr o safle'r ysgol yn ystyried nifer o feysydd risg allweddol, gan gynnwys y brif fynedfa, ffiniau blaen a chefn yr ysgol, holl ardaloedd tu allan, allanfeydd tân ac unrhyw gyfleusterau a rennir neu gerllaw megis canolfannau hamdden gerllaw.

Gall fesurau rheoli o ganlyniad i'r asesiad hwn, gynnwys gosod ffens berimedr, giatiau mynediad wedi'u rheoli, goleuadau allanol, systemau CCTV, pwyntiau mynediad gyda larwm ac arwyddion priodol i gyfarwyddo a rheoli symudiadau ymwelwyr o amgylch y safle. Mae diogelwch safle diogel hefyd yn cynnwys rheoli mynediad staff, protocolau ymwelwyr a symudiadau dysgwyr trwy gydol y dydd.

Rhaid i'r holl staff lyngu at y gweithdrefnau canlynol:

- Sicrhau mai dim ond drwy'r brif fynedfa y bydd holl ymwelwyr, gwirfoddolwyr a myfyrwyr yn dod i mewn, a'u bod yn mewngofnodi yn y Dderbynfa;
- Cadarnhau bod holl ymwelwyr yn derbyn bathodyn ymwelwyr ac yn deall y disgwyliadau diogelu
- Sicrhau bod ymwelwyr yn arwyddo allan ac yn dychwelyd eu bathodyn wrth adael
- *Cynradd yn unig* - Sicrhau bod dysgwyr ond yn cael eu rhyddhau i oedolion gyda chyfrifoldeb rhieniol neu â chaniatâd ysgrifenedig/wedi'i gadarnhau (Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2)
- Ni ddylai dysgwyr adael y safle ar eu pen eu hunain yn ystod oriau ysgol a dylent ond gael eu casglu gan oedolion sy'n gyfarwydd neu awdurdodedig
- Gofyn cwestiynau diogelwch priodol i unrhyw un sy'n rhoi neges neu'n ceisio dod i gasglu plentyn
- Herio oedolion anghyfarwydd ar y safle ac adrodd am unrhyw bryderon ar unwaith i uwch aelod o staff
- Cadw drysau a ffenestri ar gau pan na fydd ystafelloedd yn cael eu defnyddio
- Gwisgo bathodynau adnabod staff sy'n weladwy trwy'r amser (gorfodol).

**Mae Ysgol** Gymraeg Mornant yn gweithredu un pwynt mynediad wedi'i reoli trwy'r brif dderbynfa. Caiff y dderbynfa ei staffio trwy gydol y diwrnod ysgol ac mae'n gweithredu fel yr haen gyntaf o ddiogelu trwy sicrhau bod holl ymwelwyr, contractwyr, gwirfoddolwyr a staff dros dro yn arwyddo i mewn wrth gyrraedd.

Bydd gwiriadau adnabod yn cael eu cyflawni fel bo'n briodol, a bydd pob ymwelydd yn cael bathodyn / sticer y dylid ei wisgo trwy'r amser yn ystod eu hymweliad. Wrth adael y safle, disgwylir i'r ymwelwyr arwyddo allan a dychwelyd eu bathodynau i'r dderbynfa. Bydd oedolion anghyfarwydd ar y safle yn cael eu herio, ac adroddir am unrhyw bryderon ar unwaith i'r UDD ac uwch aelod o staff.

Mae'r ysgol hefyd yn rheoli mynediad i gontractwyr ac ymwelwyr yn unol â deddfwriaeth diogelu. Rhaid i gontractwyr neu ddarparwyr gwasanaeth sy'n ymgysylltu mewn gweithgareddau a reolir gyda dysgwyr feddu ar wiriad GDG ehangach. Os nad hyn yw'r achos, bydd mynediad at ardaloedd lle mae plant yn bresennol yn cael ei gyfyngu, a rhaid i'r unigolyn gael eu hebrwng trwy'r amser gan aelod o staff yr ysgol. Disgwylir i'r holl gontractwyr ac ymwelwyr ddilyn disgwyliadau diogelu'r ysgol a dylent gael eu hysbysu o'u cyfrifoldebau pan fyddent yn cyrraedd.

Dylai unrhyw negeseuon neu geisiadau yn ymwneud â dysgwyr, gan gynnwys danfon eitemau personol neu newidiadau i gynlluniau casglu, gael eu rheoli gan staff y dderbynfa a'u dilysu trwy weithdrefnau sefydledig yr ysgol. Diwygiwch lle bo angen

Disgwylir i holl staff aros yn wiliadwrs i bryderon diogelu posibl ar safle'r ysgol. Dylai holl ddrysau a ffenestri fod ar gau pan na fydd ardaloedd yn cael eu defnyddio, a rhaid i staff wisgo bathodynau adnabod gweladwy drwy'r amser i gefnogi diwylliant o atebolrwydd a gwelededd.

Bydd dysgwyr ond yn cael eu rhyddhau i'r ysgol yn ystod y dydd os cânt eu casglu gan oedolyn hysbys gyda chyfrifoldeb rhieniol, neu gan unigolyn sydd wedi cael eu hawdurdodi ymlaen llaw gan riant neu ofalwr.

Mae systemau clir mewn lle ar gyfer casglu a rhyddhau dysgwyr, yn arbennig ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae holl staff yn gyfarwydd gyda'r gweithdrefnau hyn a disgwylir iddynt eu dilyn yn llym er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael eu rhyddhau yn ddiogel i ofal oedolyn awdurdodedig.

Cynradd yn unig - Ar gyfer dysgwyr iau, yn arbennig y rhai yn y Cyfnod Sylfaen, mae staff ysgol yn cymryd gofal arbennig i ddilysu trefniadau casglu ar ddiwedd y dydd, ac ni fyddent yn rhyddhau plant heb gadarnhad adnabod. Gall ddysgwyr ym Mlynnyddoedd XX gerdded adref ar eu pennau eu hunain os fydd caniatâd gan rieni wedi'i ddarparu yn unig. Ni chaniateir i ddysgwyr adael safle'r ysgol ar eu pennau eu hunain yn ystod diwrnod yr ysgol o dan unrhyw amgylchiadau, oni bai ei fod yn rhan o drefniant dan oruchwyliaeth, wedi'i gymeradwyo. Diwygiwch lle bo angen

Mae mynediad tu allan i oriau ysgol arferol hefyd yn cael ei reoli'n ofalus. Mae hyn yn cynnwys gofal estynedig, gweithgareddau allgyrsiol a defnydd y gymuned o'r cyfleusterau. Mae pob mynediad tu allan i oriau yn cael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan uwch arweinwyr ac yn cael ei oruchwyllo gan staff dynodedig neu bersonél safle. Mae'r un safonau uchel o ran diogelu a rheoli mynediad yn gymwys pob amser, os yw'r gweithgaredd yn cael ei arwain gan staff yr ysgol neu ddarparwyr allanol. Diwygiwch lle bo angen

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am weithdrefnau diogelwch yr ysgol ym Mholisi Iechyd a Diogelwch yr Ysgol, ar gael yn Swyddfa yr ysgol.

Mae dogfennau ychwanegol, gan gynnwys Rhestr Wirio Diogelwch y Safle a thempledi Asesiad Risg, ar gael trwy adran Iechyd a Diogelwch SharePoint Hwb yr ysgol.

## 13.2 Cyfraith Martyn

Yn unol â Deddf Terfysgaeth (Amddiffyn Safleoedd) 2025 (Cyfraith Martyn), mae ysgol \_\_\_\_\_ yn cydnabod ei dyletswydd i gymryd camau cymesur i amddiffyn dysgwyr, staff ac ymwelwyr rhag y bygythiad o derfysgaeth, cyn y dyddiad gweithredu o **Ebrill 2027**. Fel eiddo Haen Safonol o dan y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i'r ysgol gyflawni asesiad risg terfysgaeth, cadw gweithdrefnau brys a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u rolau os fydd digwyddiad.

Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u hintegreiddio i'n dull diogelu ehangach, yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Pennaeth yn sicrhau bod adolygiadau rheolaidd, hyfforddiant staff ac ymarferion mewn lle er mwyn hyrwyddo parodrwydd wrth gynnal amgylchedd dysgu diogel a chefnogol.

Mae gweithdrefnau brys gan gynnwys gweithdrefnau cloi, yn cael eu hystyried yn ymateb synhwyrol a chymesur i unrhyw ddigwyddiad allanol neu fewnol a allai fod yn fygythiad i

ddiogelwch staff a dysgwyr yr ysgol. Gellir gweithredu gweithdrefnau brys mewn argyfwng mewn ymateb i nifer o sefyllfaoedd, ond gallai'r rhai mwy arferol gynnwys:

- Digwyddiad neu aflonyddwch sifil y rhoddwyd gwybod amdano yn y gymuned leol
- Rhywun heb ganiatâd ar safle'r ysgol
- Rhybudd ynglŷn â risg lleol o lygredd aer (e.e. mŵg, cwmwl nwy ac ati)
- Tân mawr yn ardal yr ysgol
- Ci peryglus / neu anifail arall yn crwydro'n rhydd yn agos at yr ysgol

Mae tri phrif ymateb brys ac mewn rhai achosion, gall gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn fod y dewis gorau:

- **Gwagio'r Adeilad:** Pwrpas gwagio'r adeilad yw symud pobl allan o, neu i ffwrdd o berygl trwy adael yr eiddo neu'r safle (e.e. gwagio'r adeilad mewn digwyddiad o dân)
- **Cloi'r Adeilad:** Cyfyngu ar fynediad/gadael; atal symudiad o amgylch yr adeilad; diogelu gofodau mewnol i ddiogelu pobl rhag bygythiad (e.e. ymwelydd digroeso, bygythiaf actif).
- **Symud i le diogel:** Pwrpas hyn yw symud pobl i ffwrdd o'r perygl i ardal(oedd) diogel o fewn eiddo.

Am fwy o wybodaeth, cyfeiriwch at y canllawiau canlynol:

<https://www.npsa.gov.uk/resources/npsa-evacuation-lockdown-and- evacuation-guidance>

<https://www.llyw.cymru/canllawiau-i-leoliadau-addysg-gofal-plant-ar-gynllunio-argyfyngau-ac-ymateb-iddynt>

Cyfeiriwch at weithdrefnau cynllunio rhag argyfwng cyfredol yr ysgol sydd yn \_\_\_\_

Argymhellir y modiwl e-Ddysgu Ymwybyddiaeth ACT (45 munud) i Benaethiaid ac UDD:

<https://www.protectuk.police.uk/group/84?type=group>

### 13.3 Dihengyd

O dan Adran 3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, ac yn unol â dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin yr ysgol, mae ysgol Gymraeg Mornant wedi ymrwmo i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn parhau o dan ofal a goruchwyliaeth staff yr ysgol trwy gydol y diwrnod ysgol, gan gynnwys yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle neu a arweinir gan yr ysgol.

Mae dihengyd yn cael ei ddiffinio fel dysgwr yn gadael eiddo'r ysgol neu amgylchedd wedi'i oruchwylio, heb ganiatâd neu oruchwyliaeth. Caiff unrhyw ddigwyddiad o'r fath gael ei drin yn ddifrifol yn sgil risgiau diogelu a lles sylweddol y mae'n ei gyflwyno.

Er mwyn lleihau'r risg o ddihengyd, bydd yr ysgol yn gweithredu mesurau rheoli yn benodol i'r safle yn seiliedig ar asesiad risg. Gallai'r rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i:

- Darparu perimedr diogel a giatiau sy'n cloi.
- Cyfyngu ar fynediad trwy giatiau a drysau allanol tu allan i'r amseroedd cyrraedd a gadael swyddogol.
- Cloi giatiau allanol yn ystod amseroedd egwyl a chinio lle canfyddir risg o ddihengyd.
- Defnydd o systemau mynediad gyda chod neu wedi'u rheoli ar ddrysau allanol.
- Gosod bolltau lefel uchel ar giatiau a drysau er mwyn atal i ddysgwyr adael heb awdurdod, lle bo'n briodol neu'n rhesymol.
- Mekanweithiau handlenni dwbl neu atal plant ar giatiau a phwyntiau gadael mewn lleoliadau'r Blynnyddoedd Cynnar/Cyfnod Sylfaen.
- Gosod datrysiadau rheoli mynediad ar ddrysau (e.e. cloeon magnetig sy'n gysylltiedig â'r system larwm dân) lle mae allanfa dân penodol yn cyflwyno risg uchel o adael heb awdurdod.

Rhaid i unrhyw fesurau rheoli gydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch tân perthnasol.

### 13.3.1 Ymateb pan na fydd dysgwr bellach ar y safle neu'n weledol

Os yw dysgwr yn ceisio dianc, neu'n cael ei weld yn gadael eiddo'r ysgol heb awdurdod, rhaid i staff ymateb mewn modd tawel, cymesur a diogel.

Os yw'r dysgwr wedi gadael cyffiniau agos safle'r ysgol a ddim yn weladwy bellach, bydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn gwneud penderfyniad deallus ar sut i ymateb. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar asesiad risg dinamig ac yn ystyried:

- Oedran a cham datblygiadol y dysgwr
- Amodau amgylcheddol a'r tywydd
- Natur a chyd-destun y digwyddiad a berodd i'r dysgwr ddihengyd
- Unrhyw hanes o ddihengyd a chanlyniadau blaenorol

Dylid osgoi dilyn y dysgwr yn gorfforol oni bai bod risg uniongyrchol ac amlwg i'w diogelwch (e.e. ffordd neu berygl arall gerllaw).

Rhaid i'r UDA sicrhau eu bod yn cysylltu â rhieni/gofalwyr y dysgwr ar unwaith er mwyn eu hysbysu o'r sefyllfa ac unrhyw gamau sy'n cael eu cymryd.

Os asesir bod y dysgwr yn ddiamddiffyn, mewn risg uniongyrchol, neu heb ei leoli o fewn cyfnod byr o amser, dylai'r ysgol gysylltu â Heddlu Gogledd Cymru ar unwaith.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn diffinio unigolyn coll fel:

*“Unrhyw un lle nad yw eu lleoliad yn hysbys, beth bynnag yw amgylchiadau eu diflaniad. Ystyrir eu bod ar goll nes bod eu lleoliad a'u lles wedi'u cadarnhau”.*

Unwaith caiff yr Heddlu eu hysbysu, dylai'r ysgol fod yn barod i'w darparu gyda manylion y dysgwr, disgrifiad, peryglon hysbys a lleoliad olaf hysbys.

Atgoffir staff na ddylid defnyddio ymyrraeth gorfforol oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol er mwyn atal niwed uniongyrchol i'r dysgwr neu eraill, a gan y bobl sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn defnydd o rym rhesymol yn unig.

### 13.3.2 Camau yn Dilyn Darganfod y Dysgwr

Unwaith caiff y dysgwr ei leoli a'i ddychwelyd yn ddiogel i'r ysgol neu leoliad diogel arall, rhaid cymryd y camau canlynol:

- Dylid mynd at y dysgwr yn dawel a chynnig sicrwydd mewn modd cefnogol, heb fod yn feirniadol, gan ystyried eu cyflwr emosiynol ac anghenion yr unigolyn.
- Rhaid hysbysu'r Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) a'r Pennaeth (neu aelod o'r UDA) ar unwaith.
- Rhaid i holl staff sy'n rhan o'r digwyddiad, gan gynnwys y rhai sy'n cymryd rhan yn y chwilio, i gael eu hysbysu eu bod wedi dod o hyd i'r dysgwr.
- Rhaid cysylltu â rhieni neu ofalwyr y dysgwr ar unwaith. Os yw'r Heddlu neu'n Gwasanaethau Plant wedi cael eu hysbysu neu'n cymryd rhan, rhaid eu hysbysu nhw hefyd.

Bydd adolygiad mewnol ar ôl y digwyddiad, yn cael ei gyflawni gan yr ysgol, ac mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill os yw'n briodol. Os yw'r dysgwr yn hysbys i'r Gwasanaethau Plant, dylid gwahodd y Gweithiwr Cymdeithasol i gyfrannu tuag at yr adolygiad ar ôl y digwyddiad a'r broses cynllunio risg.

Bydd cyfarfod dychwelyd i'r ysgol yn cael ei gynnal gyda'r dysgwr a'u rhiant / gofalwr. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd staff yn asesu lles ac anghenion emosiynol y dysgwr, a chanfod unrhyw bryderon diogelu neu ymddygiad. Bydd y drafodaeth hefyd yn ystyried a fydd angen asesiad risg, cynllun ymddygiad neu gynllun cymorth bugeiliol diwygiedig er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth briodol mewn lle.

Mae'r cyfarfod hefyd yn rhoi cyfle i ddeall unrhyw broblemau sylfaenol a allai fod wedi cyfrannu tuag at y digwyddiad ac i gydweithio gyda'r dysgwr a'u teuluoedd i archwilio strategaethau a fydd yn helpu i atal digwyddiadau o'r fath eto. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y dysgwr yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei gefnogi a'i groesawu yn ôl i amgylchedd yr ysgol. Bydd y broses yn cael ei chofnodi a'i adolygu'n llawn gan yr Unigolyn Diogelu Dynodedig a'r staff bugeiliol perthnasol.

Cyfeiriwch hefyd at *'Digwyddiadau Tyngedfennol - Canllaw i Ysgolion i Reoli Argyfyngau ar ac oddi ar y Safle' Unigolion ar Goll yn Sir y Fflint*.

## 14. Arferion Recriwtio Diogel

### 14.1 Recriwtio Mwy Diogel

Fel y nodir yng Nghanllawiau cadw Dysgwyr yn Ddiogel *'Mae'n hanfodol bod ysgolion yn mabwysiadu gweithdrefnau recriwtio a dewis, a phrosesau rheoli AD eraill sy'n helpu i atal, adnabod a gwrthod pobl a allai gam-drin plant, neu sydd fel arall yn anaddas i weithio gyda nhw'*.

Mae'r broses o recriwtio a staffio staff ysgol yn Sir y Fflint yn cael ei arwain drwy gyfuniad o reoliadau yn Rheoliadau Staffio mewn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006, Deddf Addysg (Cymru) 2014, a fframweithiau cyflogau ac amodau mwy diweddar. Mae'r Cyngor, cyrff

llywodraethu, ac ysgolion yn gyfrifol am sicrhau prosesau recriwtio teg a thryloyw, gan gadw at ofynion diogelu, a chynnal safonau proffesiynol.

Mae ysgol Gymraeg Mornant wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc ac mae'n disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn. Cyfeiriwch at Bolisi Recriwtio a Dewis Diogel yr ysgol a Pholisi Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sydd yn ffeil polisiau yn swyddfa yr ysgol

Rhaid i ymarferwyr sy'n gweithio mewn rolau sy'n disgyn o dan un o'r saith categori cofrestriad â Chyngor y Gweithlu Addysg, gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Fel y corff rheoleiddio annibynnol ar gyfer y proffesiwn addysg yng Nghymru, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cadw Cofrestr o Ymarferwyr Addysg dan y saith categori canlynol: athro ysgol, gweithiwr cefnogi dysgu ysgol, athro addysg bellach, gweithiwr cefnogi dysgu addysg bellach, gweithiwr ieuenctid, gweithiwr cefnogi ieuenctid ac ymarferwr dysgu seiliedig ar waith. Fel rhan o wiriadau cyn cyflogaeth, mae'n ofynnol i ysgolion wirio'r Gofrestr CGA i gadarnhau bod yr unigolion sy'n gweithio yn y rolau hyn wedi cofrestru.

I hyrwyddo recriwtio ac arferion Adnoddau Dynol diogel, bydd Ysgol Gymraeg Mornant yn:

- Sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn cwblhau datgeliad manylach fel rhan o'r broses recriwtio. Mae gwiriad y GDG yn darparu datgeliad o unrhyw euogfarnau ac mae hefyd yn gwirio yn erbyn Rhestr Waharddedig Plant neu Oedolion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Sicrhau bod **cliriad gan Wasanaethau Cyflogaeth Cyngor Sir y Fflint wedi cael ei roi cyn cytuno ar ddyddiad dechrau aelod newydd o staff.**
- Sicrhau bod y Pennaeth yn gallu gweld manylion pob gwiriad am dystysgrif GDG a bod cofnod ohonynt ar un cofnod canolog (cronfa ddata'r ysgol);
- Sicrhau bod staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr yn adnewyddu eu tystysgrifau datgeliad DBS **bob tair blynedd**, sef yr hyn a ystyrir yn arfer orau;
- Sicrhau bod unrhyw aelod staff, gwirfoddolwr neu lywodraethwr unigol yn diweddarau eu tystysgrif datgeliad DBS os oes yna sail resymol dros wneud hynny e.e. ar ôl bod â rhan mewn gweithgarwch troseddol neu os gwneir honiad proffesiynol;
- Sicrhau, os ceir gwybodaeth am ddatgeliad, un ai wrth recriwtio neu wedi hynny, bod asesiad risg yn cael ei gwblhau a'i ddwyn at sylw Cyngor Sir y Fflint.
- Cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl staff cyflenwi, gwirfoddolwyr a chontractwyr dyddiol, gan restru'n glir ble mae'r datgeliad DBS ar gael, neu lunio asesiad risg os nad oes datgeliad DBS ar gael. Dylai staff fel seicolegwyr addysg, athrawon cyflenwi, athrawon dan hyfforddiant, nyrsys, hyfforddwyr chwaraeon ac arolygwyr fod wedi derbyn gwiriad DBS gan eu cyflogwr, er enghraifft yr asiantaeth gyflenwi, y brifysgol neu'r awdurdod lleol. Mae'n ddigonol i ysgolion gael cadarnhad ysgrifenedig bod yr holl wiriadau priodol wedi'u cynnal mewn perthynas â'r unigolion hyn (gan amlaf, wrth eu penodi) a chan bwy (gan amlaf, yr adran adnoddau dynol berthnasol). Dylai ysgolion wedyn gadarnhau pwy yw'r ymwelwyr hyn.
- Rhaid i'r Pennaeth sicrhau bod unrhyw ganolfannau preswyl wedi cwblhau'r holl wiriadau cyflogwyr perthnasol cyn cynnal unrhyw ymweliadau. Gweler y Polisi Ymweliadau Addysgol am fwy o wybodaeth, gallwch ddod o hyd i hwn Ffeil polisiau yn swyddfa yr ysgrifenyddes.

## 14.2 Cyflenwi

Yn ôl y gyfraith, mae'r ymarferydd ei hun yn ogystal â'r cyflogwr yn gyfrifol am sicrhau mai dim ond ymarferwyr sydd wedi'u cofrestru'n briodol sy'n cael eu cyflogi yn y swydd briodol. Mae hyn yn cynnwys ysgolion, sefydliadau addysg pellach ac asiantaethau cyflenwi masnachol. Rhaid i'r ysgol / Gwasanaethau Cyflogaeth wirio fod ymarferydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn y categori cywir cyn iddynt ddechrau gweithio.

Lle defnyddir asiantaeth cyflenwi masnachol, mae'r asiantaeth a'r ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl wiriadau diogelu a chyn cyflogaeth wedi'u cwblhau. Ni ddylid gwneud rhagdybiaethau bod y pari arall wedi cyflawni'r gwiriadau hyn.

Mae ysgolion yng Nghymru yn rhydd i ymgysylltu ag athrawon cyflenwi cymwys trwy unrhyw lwybr sy'n bodloni eu hanghenion orau. Os defnyddir asiantaethau cyflenwi masnachol ar gyfer trefniadau cyflenwi o fewn yr ysgol, dylai'r Pennaeth neu Gorff Llywodraethu fod yn ymwybodol o Fframwaith Asiantaeth Cyflenwi Llywodraeth Cymru (sef yr hen Fframwaith Athrawon Cyflenwi Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol). Comisiynir y fframwaith ar ran awdurdodau lleol i ddarparu ysgolion gyda mynediad at asiantaethau cymeradwy.

Bydd defnyddio asiantaethau cyflenwi masnachol ar y fframwaith yn rhoi sicrwydd i ysgolion bod safonau ansawdd gofynnol a rhwymedigaethau diogelu statudol wedi'u cyflawni. Mae tryloywder o ran y ffioedd sy'n daladwy gan ysgolion, ac mae'n ofynnol dan gcontract i'r asiantaethau fodloni safonau cyflogaeth.

## 14.3 Gwirfoddolwyr

**Diffiniad:** *'Mae Cyngor Sir y Fflint yn ystyried gwirfoddoli fel 'gweithgaredd di-dâl lle mae rhywun yn rhoi o'u hamser i helpu sefydliad neu unigolyn nad ydynt yn perthyn iddynt. Mewn geiriau eraill, nid yw gwirfoddolwyr yn staff cyflogedig ac nid oes ganddynt berthynas dan gcontract sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith gyda'r Cyngor'.*

Mae Cyngor Sir y Fflint ac ysgol Gymraeg Mornant yn gwerthfawrogi cyfraniad gwirfoddolwyr ac mae wedi ymrwmo i gynnwys gwirfoddolwyr mewn safleoedd sy'n briodol ac mewn ffyrdd sy'n annog, yn cefnogi ac yn datblygu gwirfoddoli.

Mae Ysgol Gymraeg Mornant yn dilyn y gweithdrefnau a amlinellir gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i sicrhau diogelwch plant ac oedolion diamddiffyn. Ni all gwirfoddolwr sy'n dymuno cymryd rhan mewn gweithgaredd a amlinellir ym Meini Prawf y DBS wneud hynny nes y derbynnir gwiriad GDG clir.

Rhaid i'r Pennaeth sicrhau fod gwirfoddolwyr yn ystyried y polisi hwn ac yn cael eu cyflwyno i weithdrefnau diogelu ysgolion. Mae'n ofynnol i holl wirfoddolwyr gwblhau hyfforddiant Diogelu Grŵp A cyn dechrau eu rôl ac efallai bydd angen cwblhau Grŵp B hefyd.

## 14.4 Camau Gweithredu o Ganlyniad i Ddatgeliad Cadarnhaol (Ymgeiswyr)

Ni ellir penodi ymgeiswyr hyd nes derbynnir Datgeliad boddhaol; gall y broses hon gymryd hyd at 6 wythnos. Ni ddylai cael unrhyw eithriadau i'r rheol hon. Pe datgelir canlyniad cadarnhaol ar y Datgeliad, bydd angen i'r Gwasanaethau Cyflogaeth hysbysu'r Pennaeth, ac yna fydd angen i'r Pennaeth ystyried manylion y canlyniad cadarnhaol a chyfeirio at y rhestr

wirio yn Atodiad D y Polisi GDG. Dylai'r Pennaeth ystyried y ffactorau canlynol cyn cyrraedd unrhyw benderfyniad:-

1. a yw'r canlyniad cadarnhaol yn berthnasol i'r swydd yr ymgeisiwyd amdani;
2. difrifoldeb unrhyw drosedd neu fater arall a ddatgelir;
3. hyd yr amser ers i drosedd neu arall fater ddigwydd;
4. a oes gan yr ymgeisydd batrwm o ymddygiad troseddol neu faterion perthnasol eraill;
5. a yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid ers yr ymddygiad troseddol neu'r materion perthnasol eraill;
6. amgylchiadau'r drosedd a'r esboniad (au) a gynigir gan yr unigolyn dan sylw.

Gall y Pennaeth wneud cais i'r ymgeisydd gael ei gyfweld gan swyddog dynodedig er mwyn cadarnhau'r ffeithiau ac amgylchiadau mewn perthynas â manylion y canlyniad cadarnhaol. Bydd y swyddog yn darparu argymhellion ysgrifenedig i'r Gwasanaeth Cyflogaeth / Pennaeth. Mewn achosion eithriadol, gall y Pennaeth gymryd cyngor proffesiynol / chyfreithiol cyn dod i benderfyniad.

Os caiff yr ymgeisydd ei gymeradwyo ar gyfer y swydd, bydd angen i'r Pennaeth gwblhau Atodiad D (Polisi GDG CSFf) a dychwelyd y ffurflen ynghyd â'r Adroddiad Datgeliad gwreiddiol i'r Arweinydd Tîm Canolfan Wasanaeth y Gweithiwr (AD).

#### **14.4 Camau Gweithredu o Ganlyniad i Ddatgeliad Cadarnhaol (Gweithwyr Presennol)**

Ar gyfer gweithwyr presennol, os caiff gwybodaeth ei ddatgelu ar ôl ei ailwirio, neu os yw'r gweithiwr yn rhoi gwybod i'r Pennaeth o drosedd, bydd Polisi Disgyblu'r Ysgol yn cael ei roi ar waith. Y weithdrefn i'w ddilyn mewn amgylchiadau o'r fath:

1. Os deuir o hyd i drosedd wrth ail-wirio gwiriad GDG, neu drwy unrhyw ffurf arall, rhaid dilyn y camau gweithredu canlynol:

- Mae'n rhaid hysbysu'r Pennaeth.
- Mae'n rhaid i'r Pennaeth lenwi'r Rhestr Wirio (Atodiad D Polisi GDG CSFf) i benderfynu os yw'r gweithiwr yn dal i fod yn addas i'w g/chyflogi, (anfon copi at Arweinydd Tîm Canolfan Wasanaeth y Gweithiwr (AD))
- Ar ôl trafod â'r Partner Busnes Adnoddau Dynol, rhaid i'r Pennaeth benderfynu a ddylid cymryd camau disgyblu yn erbyn y gweithiwr.
- Rhaid ystyried eu hatal os yw'n briodol er mwyn amddiffyn plant/oedolion diameddiffyn.
- Bydd unrhyw gamau disgyblu yn cael eu cymryd yn unol â Pholisi Disgyblu Cyngor Sir y Fflint.

2. Os bydd gweithiwr presennol yn Os bydd gweithiwr presennol yn gwrthod cael gwiriad y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu, rhaid cymryd camau disgyblu.

## 15. Pryderon Diogelu neu Honiadau am Staff\*

*Mae staff\* yn cynnwys athrawon cyflenwi, gweithwyr di-dâl, staff a chontractwyr-*

### 15.1 Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Adran 5)

Mae polisi Ysgol Gymraeg Mornant yn adlewyrchu Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Adran 5) sy'n amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am unigolion y mae eu gwaith, naill ai â thâl neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion mewn perygl. Mae rheoli achosion o dan Weithdrefnau Diogelu Cymru Adran 5 yn cael ei gyflawni gan swyddog dynodedig yr awdurdod lleol. Yn Sir y Fflint, mae'r rôl hwn yn cael ei gyflawni gan yr Uwch Reolwr ar gyfer Rhianta Corfforaethol yn y Gwasanaethau Plant.

Mae Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd yn berthnasol i bryderon a allai awgrymu nad yw unigolyn yn addas i barhau i weithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg yn ei swydd bresennol neu mewn unrhyw swydd. Dylid ei ddefnyddio ymhob achos lle honnir bod unigolyn sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion sy'n wynebu risg:


- wedi ymddwyn mewn ffordd sydd wedi niweidio plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg, neu y gallai fod wedi gwneud hynny
- o bosibl wedi cyflawni trosedd yn erbyn plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg neu sydd ag effaith uniongyrchol ar y plentyn neu'r oedolyn sy'n wynebu risg
- wedi ymddwyn tuag at blentyn, plant neu oedolion mewn perygl mewn ffordd sy'n awgrymu eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant ac oedolion

Dylai'r unigolyn sydd wedi derbyn yr honiad neu bryder yn gyntaf, drin y mater o ddifri a chadw meddwl agored.

Mae'n hanfodol mynd i'r afael â phob honiad o gam-drin yn gyflym, yn deg ac yn gyson. Dylai'r ysgol ddarparu amddiffyniad effeithiol ar gyfer y plentyn/plant/oedolyn sy'n wynebu risg a chefnogi'r unigolyn sy'n destun y pryder neu honiad diogelu.

## 15.2 Siart Lif:

**Gweithdrefn ar gyfer ymateb i bryderon neu honiadau diogelu am staff\***



### 15.3 Derbyn Pryder neu Honiad Diogelu

**15.3.1** Dylai pryder / honiad diogelu yn erbyn aelod o staff gael ei adrodd ar unwaith i'r Pennaeth, ac os nad yw'r Pennaeth ar gael, Unigolyn Diogelu Dynodedig (UDD) yr ysgol.

Os yw'r honiad yn erbyn y Pennaeth, yna dylid hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr.

Ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion, byddai Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli ac Uwch Reolwr yr awdurdod lleol (Cynhwysiant a Chynnydd) yn cyflawni rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr yn y sefyllfa hon.

Er hwylustod, cyfeirir at yr unigolyn hwn (Pennaeth/UDD/Cadeirydd y Llywodraethwyr) fel 'rheolwr achos' yn y polisi hwn.

**15.3.2** Yn y lle cyntaf (cyn hysbysu'r awdurdod lleol) dylai'r rheolwr achos gynnal ymholiadau sylfaenol er mwyn sefydlu natur, cynnwys a chyd-destun yr honiad, gan fod yn ofalus i beidio â pheryglu unrhyw ymchwiliad posibl yn y dyfodol. Dylid rhoi ystyriaeth i:

- Yr hyn yr honnir sydd wedi digwydd
- Pryd a ble y digwyddodd/yr honnir y digwyddodd
- Pwy oedd yn rhan o hyn; ac
- Unrhyw unigolion eraill a oedd yn bresennol

Dylai'r rheolwr achos hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr o bob honiad o gam-drin sy'n dod i'w sylw.

**15.3.3** Os nad yw'r honiad wedi dod o fewn yr ysgol, ac wedi'i atgyfeirio i'r Gwasanaethau Plant gan asiantaeth allanol (e.e. yr Heddlu) dylai Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol hysbysu'r Arweinydd Dynodedig Diogelu mewn Addysg fod honiad wedi cael ei wneud yn erbyn aelod o staff a bod angen ymchwiliadau ffurfiol. Yn yr achos hwn, efallai bydd yr Heddlu / Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol / Arweinydd Dynodedig Diogelu mewn Addysg yn cysylltu'n uniongyrchol â'r rheolwr achos.

### 15.4 Hysbysu'r Awdurdod Lleol

**15.4.1** Rhaid i'r ysgol ddod i benderfyniad mewnol eu hunain ynglŷn ag a yw pryder neu honiad diogelu am aelod o staff\* (hyd yn oed os ystyrir yn 'lefel isel') yn fater disgybl neu'n fater amddiffyn plant.

**15.4.2** Felly dylai unrhyw bryder neu honiad yn erbyn aelod o staff\* gael ei adrodd i'r rheolwr achos ar unwaith i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg yn y lle cyntaf, ac os nad ydynt ar gael, y Prif Weithredwr ar gyfer Addysg ac Ieuenctid. Dylid hysbysu'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg ymhob achos o fewn dim mwy na 24 awr ar ôl i'r pryder godi (diwrnod gwaith nesaf - os yw tu allan i oriau swyddfa).

**15.4.3** Gall rhai honiadau fod mor ddifrifol fel bod angen ei adrodd i'r Heddlu a Gwasanaethau Plant ar unwaith, cyn cysylltu â'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg, er enghraifft os ystyrir bod yr unigolyn yn risg uniongyrchol i blant.

Os nad oes tystiolaeth o risg uniongyrchol, dylai'r rheolwr achos a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg drafod a oes angen cynnwys yr Heddlu.

**15.4.4** Pwrpas y drafodaeth ddechreuol yw i'r Unigolyn Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg / Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid a'r rheolwr achos sefydlu'r ffeithiau er mwyn eu helpu i benderfynu a oes unrhyw sylfaen o'r honiad, gan gynnwys:

- a oedd yr unigolyn yn yr ysgol ar adeg yr honiad
- a allai / wnaeth yr unigolyn ddod i gyswllt gyda'r dysgwr
- a oedd unrhyw dystion yn bresennol
- a allai unrhyw fideo CCTV fod wedi cofnodi'r digwyddiad.

**15.4.5** Bydd yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg a'r rheolwr achos yn cytuno ar gamau gweithredu, gan gynnwys hawliau a llais y plentyn/oedolyn sy'n wynebu risg, y cynllun rheoli risg, rhannu gwybodaeth, cyfrinachedd a chefnogaeth i'r aelod o staff.

**15.4.6** Gall yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg hefyd ofyn i'r rheolwr achos gael gwybodaeth berthnasol ychwanegol gan gynnwys; hanes blaenorol, amgylchiadau personol yr aelod o staff ac a yw'r unigolyn yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn sectorau addysg, chwaraeon neu ofal eraill.

## **15.5 Ffurflen Atgyfeirio Adran 5**

**15.5.1** Gall y broses o rannu gwybodaeth a gwerthuso dechreuol rhwng y rheolwr achos a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg (a drws ffyrnt y Gwasanaethau Plant yn ôl y gofyn) benderfynu bod angen cwblhau Atgyfeiriad Adran 5 neu, gall arwain at benderfyniad fod yr honiad yn ffug neu heb sail, ac ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r unigolyn.

**15.5.2** Os oes angen cwblhau ffurflen atgyfeirio Adran 5, dylai'r gweithiwr achos sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno i'r mewnflwch atgyfeirio amddiffyn plant ar unwaith.

**15.5.3** Dylid rhoi gwybod i rieni neu ofalwyr y plentyn / plant sydd ynghlwm, am y pryder neu honiad diogelu cyn gynted â phosibl, os nad ydynt eisoes yn ymwybodol. Os oes angen trafodaeth strategaeth broffesiynol, neu os oes angen cynnwys yr Heddlu neu Wasanaethau Cymdeithasol Plant/Oedolion, dylai'r rheolwr achos ymgynghori gyda'r asiantaethau hynny a chytuno ar ba wybodaeth y gellir ei datgelu i'r rhieni neu ofalwyr.

**15.5.4** Ni fydd y rheolwr achos yn hysbysu'r aelod o staff am fanylion yr honiad nes bydd yr amseru ar gyfer gwneud hynny wedi cael ei gytuno gyda'r Heddlu / Gwasanaethau Plant neu Oedolion. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn ystod trefniadau diogelu dros dro a drafodir a chytunir gan yr Heddlu a'r Swyddog Dynodedig ALI ar gyfer Diogelu. Dylai'r unigolyn sy'n destun yr honiad gael cymorth priodol gan yr ysgol.

**15.5.5** Mae'n ofynnol i'r gweithiwr achos gwblhau Asesiad Risg Gwaharddiad AD, cyn penderfynu os mai'r cam gweithredu gorau yw gwahardd unigolyn a gallent geisio cyngor gan yr Ymgynghorydd AD ar y cam hwn. Dylai'r Asesiad Risg ystyried y goblygiadau ar gyfer y gweithiwr tra bod yr ymholiadau / ymchwiliadau yn parhau, yn ogystal â lles gorau'r plentyn/plant/oedolyn sy'n wynebu risg. Dylid hefyd ystyried dewisiadau eraill os yw'n briodol, e.e. cyflawni gwaith nad yw'n cynnwys cyswllt gyda dysgwyr, neu weithio o gartref.

**15.5.6** Os cytunir nad na ddylid cymryd camau pellach o ran yr unigolyn, dylid cofnodi'r penderfyniad a'r rhesymeg gan y rheolwr achos a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg. Dylai hyn fod yn seiliedig ar dystiolaeth a ni ddylai fyth fod yn seiliedig ar farn y cyflogwr am gymeriad a/neu amgylchiadau personol y gweithiwr unigol ac am yr unigolyn sy'n gwneud yr honiad.

**15.5.6** Yna dylai'r rheolwr achos a'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg ystyried pa gamau dylid eu dilyn mewn perthynas â'r unigolyn a'r rhai a rannodd eu pryderon / honiadau. Dylai'r ysgol gynnwys Ymgynghorydd AD ym mhob agwedd o'r broses rheoli honiad. Dylid hysbysu Cadeirydd y Llywodraethwyr hefyd.

## 15.6 Y Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol

**15.6.1** Os fydd angen cynnal trafodaeth strategaeth proffesiynol ar ôl derbyn atgyfeiriad adran 5, bydd hyn yn cael ei gadeirio gan uwch reolwr o'r gwasanaethau plant, a bydd yn cael ei gynnal gyda'r Heddlu, a gall asiantaethau perthnasol eraill gael eu gwahodd fel bo'n briodol. Bydd trafodaeth strategaeth proffesiynol yn penderfynu a fydd angen cyfarfod strategaeth proffesiynol llawn yn unol ag Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

**15.6.2** Os na fydd angen unrhyw gamau pellach yn dilyn trafodaeth strategaeth proffesiynol, dylai'r rheolwr achos a'r UDD ar gyfer Addysg gofnodi'r penderfyniad a'r rhesymeg, a chytuno pa wybodaeth y dylid ei roi'n ysgrifenedig i'r unigolyn dan sylw a gan bwy. Dylai Cyrrff Llywodraethu gyfeirio at Ganllawiau Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol <<https://gov.wales/disciplinary-and-dismissal-procedures-school-staff>> wrth ystyried pa gamau i'w cymryd. Gall rhai pryderon gael eu hystyried yn ymarfer proffesiynol gwael, ac yn fwy priodol i gael eu trin trwy brosesau mewnol yr ysgol neu drwy'r ddarpariaeth o gyngor, canllawiau neu hyfforddiant.

## 15.7 Cyfarfod Strategaeth Proffesiynol

Bydd cyfarfod strategaeth proffesiynol bob amser yn cynnwys y Gwasanaethau Plant a'r Heddlu, a bydd partneriaid / asiantaethau eraill a chyflogwyr yn cael eu gwahodd yn ôl y gofyn.

Os fydd y cyfarfod strategaeth proffesiynol yn penderfynu bod angen i'r asiantaethau statudol (Gwasanaethau Plant a/neu'r Heddlu) ymchwilio neu gymryd camau, yna rhaid i'w prosesau gael eu cwblhau cyn y gellir cynnal Cyfarfod Canlyniad Strategaeth Proffesiynol a rhoi'r mater yn ôl yn nwylo'r ysgol.

Mewn rhai achosion, bydd yr Heddlu'n penderfynu bod angen i'r mater gael ei basio i Wasanaeth Erlyn y Goron. Mewn achosion o'r fath, efallai bydd angen aros am ganlyniad achosion troseddol cyn gall y mater gael ei roi yn ôl yn nwylo'r ysgol i gwblhau'r broses ddisgybl neu ddiswyddo.

## 15.8 Cyfarfod Canlyniad Strategaeth Proffesiynol

Unwaith i'r awdurdodau statudol gwblhau eu hystyriaethau o'r honiad, bydd Cyfarfod Canlyniad Strategaeth Proffesiynol yn cael ei gynnal i benderfynu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, a oes sail i'r pryderon. Os nad ystyrir bod sail i'r pryderon, yna dylai'r canlyniad

gael ei gofnodi fel un di-sail neu wedi'i ddyfeisio'n fwriadol neu'n faleisus. Ystyriaeth a wneir mewn cyfarfod strategaeth proffesiynol yw a ddylid gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac unrhyw gyrrff rheoleiddio (Cyngor y Gweithlu Addysg), yn benodol lle mae sail i'r pryderon.

## **15.9 Y Broses Ddisgyblu**

Yn dilyn canlyniad adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru, bydd yr ysgol yn cyfeirio at bolisi a gweithdrefnau disgybl staff, os oes angen, gan y bydd y rhaid wedi cael eu hysgogi ar ddechrau'r broses yn y broses rheoli risg dechreuol. Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth (oni bai mai'r Pennaeth sy'n destun yr honiad) yn trafod y camau nesaf gyda chyngor gan yr Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg ac AD. Dan yr amgylchiadau hynny, mae'r dewisiadau sydd ar gael i'r ysgol yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau'r honiad a'r dystiolaeth a gwybodaeth sydd ar gael. Bydd hyn yn amrywio o beidio â chymryd unrhyw gamau pellach i ddiswyddiad diannod trwy wrandawriad disgyblu, neu benderfyniad i beidio â defnyddio gwasanaethau'r unigolyn yn y dyfodol os bydd yr honiad yn erbyn gwirfoddolwr neu wasanaethau asiantaeth.

### **15.10 Cyfathrebu**

Dylai holl staff, rhieni a gofalwyr fod yn ymwybodol o'r gwaharddiad ar adrodd neu gyhoeddi honiadau am athrawon (Deddf Addysg 2002). Ni ddylai unrhyw fater yn ymwneud â'r unigolyn gael ei gynnwys mewn unrhyw gyhoeddiad os yw'n debygol o arwain aelod y cyhoedd i adnabod yr unigolyn fel yr athro sy'n destun yr honiad.

Mae "cyhoeddiad" yn cynnwys unrhyw araith, ysgrifen, cyfryngau cymdeithasol neu gyfathrebiad eraill mewn unrhyw ffurf, sydd wedi'i dargedu at y cyhoedd..

### **15.11 Cyflenwi**

Mewn rhai amgylchiadau, bydd rhaid i'r Pennaeth / UDD ystyried honiad yn erbyn unigolyn nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan yr ysgol, lle na fydd ei weithdrefnau disgyblu'n gymwys oherwydd bydd gan asiantaethau eu polisïau a gweithdrefnau eu hunain, er enghraifft, athrawon cyflenwi neu staff dan contract wedi'u darparu gan asiantaeth cyflenwi.

Er nad ysgol Gymraeg Mornant yw'r cyflogwr yn yr achosion hyn, dylai'r Pennaeth / UDD sicrhau bod yr honiadau yn cael eu trin yn iawn trwy sefydlu'r ffeithiau a chysylltu gyda'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg i benderfynu ar ganlyniad addas.

### **15.12 Rhannu Pryderon**

Gellir defnyddio Polisi Rhannu Pryderon yr ysgol er mwyn rhoi gwybod yn gyfrinachol am unrhyw ymddygiad camdriniol, amhriodol neu amhroffesiynol tuag at blant neu bobl ifanc, neu unrhyw ymddygiad sy'n torri cyfraith trosedd neu statud; yn peryglu iechyd a diogelwch; yn torri codau ymddygiad proffesiynol y cytunwyd arnynt, neu fel arall yn methu â chyrraedd y safonau ymarfer sefydledig mewn perthynas â phlant a phobl ifanc. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw weithiwr sy'n credu na ddilynwyd gweithdrefnau priodol mewn perthynas â honiadau neu amheuan am aelod staff neu oedolyn, i uwchgyfeirio eu pryder yn uniongyrchol i'r Arweinydd Diogelu Dynodedig ar gyfer Addysg.

## 16. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

**16.1** Fel cyflogwr a darparwr gwasanaethau, ni fydd ysgol Gymraeg Mornant yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, nac ar sail y Gymraeg.

Mae'r holl ddysgwyr, eu rhieni a'u gofawyr, gwirfoddolwyr, staff a llywodraethwyr yr ysgol yn cael eu gwerthfawrogi a byddant yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni fydd ysgol Gymraeg mornant yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth.

Er mwyn gwneud penderfyniadau proffesiynol sensitif a gwybodus am anghenion dysgwyr a gallu rhieni i ymateb i anghenion eu plant, mae'n bwysig i staff ysgolion fod yn sensitif ynghylch gwahanol batrymau teuluoedd, ffyrdd o fyw a phatrymau magu plant sy'n amrywio ar draws gwahanol grwpiau hil, ethnig a diwylliannol.

Byddwn yn gweithio trwy gymuned gyfan ein hysgol i sicrhau bod ein hymrwymiad i gydraddoldeb a thegwch yn cael ei rannu a byddwn yn cymryd camau i sicrhau bod ein hysgol

## 17. Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC)

yn hygyrch, yn groesawgar ac yn gynhwysol.

**17.1** Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru (BDGC) yn gorff statudol sydd yn cydlynw, monitro a herio ei asiantaethau partner i ddiogelu plant yng Ngogledd Cymru. Mae Cyngor Sir y Fflint yn bartner statudol i BDGC.

Mae amddiffyn ac atal plant ac oedolion sy'n wynebu risg rhag profi unrhyw niwed, a hybu lles trigolion Gogledd Cymru a'u galluogi i gyflawni canlyniadau gwell, yn parhau i fod yn ganolog i waith y Bwrdd.

Dylai ysgolion fod yn ymwybodol o waith BDGC ac fe'u hanogir i ddod i wybod y diweddaraf o ran cyfleoedd hyfforddi a threfniadau diogelu lleol drwy glicio ar y ddolen isod:

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/>

### 17.2 Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR)

O dan Reoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015, mae gan fyrddau diogelu gyfrifoldeb statudol i gyflawni Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant Amlasiantaeth. Mae proses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) yn bodloni'r cyfrifoldeb hwn. Mae Adolygiad Diogelu Unedig Sengl yn broses adolygu sengl yn cynnwys holl adolygiadau yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod y teuluoedd yr effeithir arnynt yn gallu disgwyl proses adolygu cyflym a trylwyr.

Mae'n ofynnol i Fyrddau Diogelu gynnal Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR) os penderfynir bod y meini prawf yn bodloni un o'r canlynol:

**Adolygiad Ymarfer Oedolion (AYO)** - Mae AYO yn digwydd mewn achosion lle mae amheuaeth o gam-drin neu esgeulustod o "oedolyn sy'n wynebu risg" gan arwain at ddigwyddiad difrifol. Y prif bwrpas yw nodi gwelliannau i asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu oedolion.

**Adolygiad Ymarfer Plant (AYP)** - Mae AYP yn digwydd mewn digwyddiadau difrifol o gamdriniaeth neu esgeulustod plentyn yn hysbys neu pan fo amheuaeth o hynny. Dylai AYP ganfod gwelliannau ar gyfer ymarferion wrth symud ymlaen. Bydd y ddysgeidiaeth o'r adolygiadau yna'n cael eu rhoi ar waith mewn ymarferion presennol.

**Adolygiad Dynladdiad Domestig (ADD)** - Mae ADD yn cael eu cyflawni gan bartneriaeth diogelwch cymunedol pan fydd person yn marw o ganlyniad i gam-drin domestig, neu amheuaeth o hynny.

**Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl (ADIM)** - Mae ADIM yn digwydd pan fydd dynladdiad wedi digwydd, a bod y cyflawnwr honedig wedi bod mewn cyswllt â gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, eilaidd neu drydyddol o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

**Adolygiad Dynladdiad Arfau Ymosodol (ADAY)** - Mae ADAY yn digwydd pan fydd marwolaeth person 18 oed neu drosodd yn digwydd gan ddefnyddio arf ymosodol.

Mae'r SUSR yn dod ag asiantaethau ac unigolion sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad ynghyd mewn amgylchedd dysgu diogel er mwyn:

- meithrin gwell dealltwriaeth o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y digwyddiad a pham
- gwella dealltwriaeth o effaith y gweithredoedd y sefydliadau
- ystyried a fyddai camau gweithredu gwahanol wedi gallu arwain at ganlyniadau gwahanol ar gyfer y plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg
- canfod unrhyw gyfleoedd dysgu ar gyfer y dyfodol
- darparu cynllun gweithredu clir ar sut i wella darpariaeth gwasanaeth

Pwrpas Adolygiad yw nodi'r hyn a ddysgwyd ar gyfer ymarfer yn y dyfodol ac mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr ac uwch swyddogion wrth archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau gyda phlentyn neu deulu. Bwriedir i allbwn Adolygiad ddarparu dysg broffesiynol a sefydliadol a hybu gwelliant o ran ymarfer amddiffyn plant rhyngasiantaethol yn y dyfodol.

Bydd y Pennaeth / UDD yn gweithio'n agos gyda'r **awdurdod lleol** mewn amgylchiadau o'r fath i sicrhau eu bod yn ymateb i geisiadau am wybodaeth a dogfennau yn yr amserlen ofynnol.

Mae'n bosibl y bydd angen mynychu Digwyddiadau Dysgu ynghyd ag ymarferwyr o aml-asiantaethau hefyd yn ystod y broses adolygu. Dylai'r holl staff gael gwybod bod disgwyliad, fel gweithwyr proffesiynol, iddynt gyfrannu at adolygiad a mynychu unrhyw gyfweiliadau fel bo angen; a hynny os ydynt yn dal wedi eu cyflogi gan yr ysgol neu wedi newid swyddi.

## 18. Cyfeiriadau

➤ **Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019**

<https://diogelu.cymru/cy/>

**Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan:**

- Diogelu plant rhag Camfanteisio Troseddol  
[www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html](http://www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html)
- Diogelu plant rhag Camfanteisio Rhywiol  
[www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html](http://www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html)
- Diogelu plant y mae Cam-drin Domestig yn Effeithio Arnynt  
[www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html](http://www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html)
- Diogelu Plant Rhag Arferion Niweidiol sy'n Ymwneud â Thraddodiad, Diwylliant, Crefydd neu Ofergoelau  
[www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html](http://www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html)
- Diogelu plant lle mae pryderon ynghylch Ymddygiad Rhywiol Niweidiol  
[www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html](http://www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html)
- Diogelu plant rhag Cam-drin Ar-lein  
[www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html](http://www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html)
- Diogelu plant a all fod wedi'u Masnachu  
[www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html](http://www.safeguarding.wales/chi/index.c6.html)
- Diogelu Plant rhag cael eu Radicaleiddio  
<https://safeguarding.wales/chi/c6/c6.p12.html>

➤ **Canllawiau Llywodraeth Cymru:283/2022 Cadw Dysgwyr yn Ddiogel**

<https://www.llyw.cymru/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel>

➤ **Canllawiau Llywodraeth Cymru:002/2020 Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol: Canllawiau Diwygiedig i Gyrff Llywodraethu**

[https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/gweithdrefnau-disgyblu-a-diswyddo-staff-ysgol\\_0.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-02/gweithdrefnau-disgyblu-a-diswyddo-staff-ysgol_0.pdf)

- **Canllawiau Llywodraeth Cymru:** Rhannu delweddau noeth a hanner noeth: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc - canllawiau ar gyfer lleoliadau addysg

<https://hwb.gov.wales/zones/keeping-safe-online/sharing-nudes-and-semi-nudes-responding-to-incidents-and-safeguarding-children-and-young-people>

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl:** Canllaw anstatudol ar rannu gwybodaeth i ddiogelu plant 2019

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-rhannu-gwybodaeth-er-mwyn-ddiogelu-plant.pdf>

- **Ffrydio byw a fideo-gynadledda:** canllawiau ar arferion ac egwyddorion diogelu Hwb a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020

<https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/polisiau-a-gweithdrefnau-diogelwch-ar-lein/ffrydio-byw-a-fideogynadledda-arferion-ac-egwyddorion-diogelu>

- **Llywodraeth Cymru a Chyngor y DU ar Ddiogelwch ar y Rhyngwrdd:** Pum cwestiwn allweddol ar gyfer cyrff llywodraethu i helpu i herio eu hysgolion a cholegau i ddiogelu eu dysgwyr yn effeithiol

<https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/polisiau-a-gweithdrefnau-diogelwch-ar-lein/pum-cwestiwn-allweddol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-er-mwyn-helpu-i-herio-ysgolion-a-cholegau-i-ddiogelu-eu-dysgwyr-yn-effeithiol>

- **Parth Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb**

<https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/polisiau-a-gweithdrefnau-diogelwch-ar-lein/pum-cwestiwn-allweddol-ar-gyfer-cyrff-llywodraethu-er-mwyn-helpu-i-herio-ysgolion-a-cholegau-i-ddiogelu-eu-dysgwyr-yn-effeithiol>

- **360 Degree Safe**

<https://hwb.gov.wales/cadwn-ddiogel-ar-lein/360-safe-cymru>

- **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)**

<https://www.waspi.llyw.cymru/>

- **Ymgyrch Encompass**

<https://www.operationencompass.org/>

- **Y Swyddfa Gartref:** Canllawiau ar gamfanteisio troseddol ar blant ac oedolion agored i niwed: llinellau sirol (Cymru a Lloegr)

<https://www.gov.uk/government/publications/criminal-exploitation-of-children-and-vulnerable-adults-county-lines#history>

- **Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru**

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/>

- **Gofal Cymdeithasol Cymru:** Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol

[https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol?\\_gl=1\\*d4bez8\\*\\_ga\\*MTUxMDg0NDAxNC4xNzYyMzYyNzU3\\*\\_ga\\_NZV6WMW0HJ\\*czE3NjIzNjI3NTcjbzEkZzAkdDE3NjIzNjI3NTcjkajYwJGwwJGgw](https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol?_gl=1*d4bez8*_ga*MTUxMDg0NDAxNC4xNzYyMzYyNzU3*_ga_NZV6WMW0HJ*czE3NjIzNjI3NTcjbzEkZzAkdDE3NjIzNjI3NTcjkajYwJGwwJGgw)

- **Canllawiau Dyletswydd Prevent: Cymru 2024**

[https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65e5a5bd3f69457ff1035fe2/14.258\\_HO\\_Prevent+Duty+Guidance\\_v5d\\_Final\\_Web\\_1\\_.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/media/65e5a5bd3f69457ff1035fe2/14.258_HO_Prevent+Duty+Guidance_v5d_Final_Web_1_.pdf)

- **Canllawiau Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (2023 diwygiwyd 2025)**

<https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-sengl-canllawiau>


- **Cyngor Sir y Fflint: Polisi Gwiriadau Datgelu a Gwahardd 2021-2024**
- **Cyngor Sir y Fflint: Canllaw Ysgolion i Reoli Argyfyngau Ar Safle ac Oddi ar Safle / Digwyddiadau Tyngedfennol 2025**
- **Cyngor Sir y Fflint: Polisi Gwirfoddoli 2022-2025**
- **Cyngor Sir y Fflint: Polisi Recriwtio a Dewis Diogel 2025-2028**
- **Cyngor Sir y Fflint: Polisi Diogelu Corfforaethol 2022-2025**

## 19. Atodiadau

**Atodiad 1:** Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol: Hierarchaeth Grwpiau Ymarferwyr

**Atodiad 2:** Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol: Trosolwg o'r SECTOR ADDYSG

## ATODIAD 1: Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol:



Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

[https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol?\\_gl=1\\*1uzlqqt\\*\\_ga\\*MTUxMDQ0NDAXNC4xNzYyMzYyNzU3\\*\\_ga\\_NZV6WMW0HJ\\*czE3NjIzNjI3NTcKbzEkZzEkdDE3NjIzNjI4MDUkajE0JGwwJGgw](https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol?_gl=1*1uzlqqt*_ga*MTUxMDQ0NDAXNC4xNzYyMzYyNzU3*_ga_NZV6WMW0HJ*czE3NjIzNjI3NTcKbzEkZzEkdDE3NjIzNjI4MDUkajE0JGwwJGgw)

**ATODIAD 2:** Safonau Hyfforddiant, Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol: Trosolwg o'r  
SECTOR ADDYSG.

| Grŵp<br>(A/B/C/D/E/F)                                                                                       | Swydd                                                                                                                                                                                                                                                                          | Hyfforddiant<br>cychwynnol                                                                                                                                                                                | Hyfforddiant<br>gloywi                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        | Hyd yr<br>hyfforddiant<br>sydd ei<br>angen                             | Egwyddorion cofiadwy                                                                                                                                                                                                   |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Grŵp A</b><br><br>Ymwybyddiaeth<br>Sylfaenol                                                             | <b>Yr holl staff sy'n gweithio ym maes:</b> gofal cymdeithasol, gofal iechyd, adrannau awdurdod lleol, yr heddlu, <b>addysg</b> , blynyddoedd cynnar, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol (yn cynnwys gwirfoddolwyr) a chontractwyr annibynnol (gwasanaethau a gomisiynir). | Cwblhau modiwl e-ddysgu cyn dechrau gweithio, neu yn rhan o'r cyflwyniad sefydlu.                                                                                                                         | Dylai pob aelod staff fynychu hyfforddiant gloywi o fewn 2 flynedd, ond ni ddylai fod yna fwy na 3 blynedd rhwng hyfforddiant (o ganllaw KLS).<br><br>NEU<br>Yn dilyn newid i ddeddfwriaeth diogelu.<br><br>NEU<br>Pan mae cyflogwr neu reolwr yn dweud bod angen.                                                                                                            | <b>1-3 awr</b>                                                         | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dwi'n gwybod beth mae'r term diogelu yn ei olygu</li> <li>Dwi'n gwybod beth i chwilio amdano</li> <li>Dwi'n gwybod wrth bwy i ddweud.</li> </ul>                                |
| <b>Grŵp B</b><br><br>Canolradd<br><br><b>Bydd pawb yn y grŵp yma hefyd angen gwybod popeth yng ngrŵp A.</b> | <b>Cymorthyddion addysgu ac athrawon</b><br><br>Pob ymarferydd sydd â chyswllt rheolaidd gydag oedolion, plant ac aelodau o'r cyhoedd yn eu swydd. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr sydd wedi neu heb gofrestru neu eu rheoleiddio a gwirfoddolwyr.                               | Yn rhan o gyfnod sefydlu neu gyfnod prawf (chwe mis cyntaf).<br><br>Efallai y bydd angen hyfforddiant ar bynciau penodol sy'n berthnasol i swydd, os ydi'r cyflogwr neu reolwr yn meddwl bod angen hynny. | Dylai pob aelod staff fynychu hyfforddiant gloywi o fewn 2 flynedd, ond ni ddylai fod yna fwy na 3 blynedd rhwng hyfforddiant (o ganllaw KLS).<br><br>NEU<br>Yn dilyn newid i ddeddfwriaeth diogelu.<br><br>NEU<br>Pan mae cyflogwr neu reolwr yn dweud bod angen.<br><br>NODER - Gall hyn gynnwys dysgu ehangach sy'n benodol i'r swydd a datblygiad sy'n benodol i'r swydd. | <b>Isafswm o 6 awr</b> , y gellir ei wneud mewn un neu fwy o sesiynau. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydwn i'n rhan allweddol o'r broses ddiogelu</li> <li>Dwi'n gwybod pryd, sut ac wrth bwy i ddweud</li> <li>Byddaf yn sicrhau bod llais yr unigolyn yn cael ei glywed</li> </ul> |

|                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
|                                                                                                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                                                                                                                                                                                        |                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| <p><b>Grŵp C</b></p> <p>Uwch</p> <p><i><b>Bydd pawb yn y grŵp yma hefyd angen gwybod popeth yng ngrwpiau A a B.</b></i></p> | <p><b>Penaethiaid a UDD</b></p> <p>Ymarferwyr cofrestredig neu wedi'u rheoleiddio sydd â swydd asesu, cynllunio, ymyrryd a gwerthuso. Bydd ganddynt swydd cynllunio diogelu clir (grŵp craidd, cynhadledd achosion, gweithwyr cyfarfod strategaeth) a swyddogaeth statudol.</p> | <p>Unrhyw hyfforddiant y mae'r rheolwr sy'n penodi yn meddwl maen nhw ei angen cyn cychwyn eu swydd. 8 awr yn ystod cyfnod prawf (chwe mis cyntaf), ac unrhyw ddysgu penodol ychwanegol i'w swydd.</p> | <p>Yr hyfforddiant cyffredinol. Dysgu sy'n benodol i'r swydd.</p> <p>Dylai pob aelod staff fynychu hyfforddiant gloymi o fewn 2 flynedd, ond ni ddylai fod yna fwy na 3 blynedd rhwng hyfforddiant (o ganllaw KLS).</p> | <p>O leiaf wyth awr o'r hyfforddiant cyffredinol, yn ogystal â hyfforddiant sy'n benodol i'r rôl.</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Dw'n deall bod llais a rheoli pobl yn allweddol wrth wneud penderfyniadau - ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn/unigolyn</i></li> <li><i>Dwi'n deall rolau a chyfrifoldebau pawb yn y broses ddiogelu</i></li> <li><i>Dwi'n dangos y gallu i wneud penderfyniadau clir a chymesur</i></li> </ul> |
| <p><b>Grŵp D</b></p> <p><i>Arbenigol</i></p>                                                                                | <p>Arweinydd Diogelu Addysg</p> <p>Rolau sydd â chyfrifoldebau diogelu plant a/neu oedolion yn benodol, megis arweinwyr diogelu a gweithwyr</p>                                                                                                                                 | <p>Isafswm o wyth awr yn ystod y cyfnod prawf (chwe mis cyntaf). Unrhyw ddysgu sy'n benodol i'r swydd.</p>                                                                                             | <p>Isafswm o 24 awr dros 3 blynedd.</p>                                                                                                                                                                                 | <p>Dysgu sy'n benodol i'r swydd, dros 2-3 blynedd.</p>                                                | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Byddaf yn arwain agenda diogelu'r sefydliad.</i></li> <li><i>Byddaf yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ym mhob rhan o'r broses.</i></li> <li><i>Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth ac</i></li> </ul>                                                                                    |

|               | proffesiynol dynodedig.                                                                                                                                                                                              |                                                                                                                                                                |                                                                                                                                                                                                        |                                  | arbenigedd i wella arferion diogelu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|---------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Grŵp E</b> | Arweinwyr Strategol<br>Y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.<br><br>Mae hwn yn bennaf yn cynnwys gweithwyr y gwasanaethau cymdeithasol mewn swyddi arweinyddiaeth strategol, ynghyd â'u partneriaid statudol allweddol. | Isafswm o chwe mis.                                                                                                                                            | Cynnal cofnod Datblygiad Proffesiynol Parhaus ffurfiol i recordio dysgu dros 3 blynedd.                                                                                                                | Isafswm o 24 awr dros 3 blynedd. | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gen i drosolwg strategol ar bob mater diogelu o fewn y sefydliad</li> <li>Byddaf yn ceisio sicrhau bod gennym ni ddigon o adnoddau i fodloni dyletswyddau diogelu'r sefydliad.</li> <li>Byddaf yn defnyddio fy ngwybodaeth a dylanwad i wella arferion diogelu yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol.</li> </ul>                |
| <b>Grŵp F</b> | Arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus: Cyfarwyddwyr Addysg<br><br><b>Llywodraethwyr Ysgol</b>                                                                                                                               | Modiwl e-ddysgu cyn dechrau gweithio, neu yn rhan o gyfarfod sefydlu neu gyfnod prawf (chwe mis cyntaf) a hyfforddiant, dysgu a datblygiad unigryw perthnasol. | Grŵp A E-ddysgu<br><br>Datblygiad gloywi unigryw<br><br>Dylai pob aelod staff fynychu hyfforddiant gloywi o fewn 2 flynedd, ond ni ddylai fod yna fwy na 3 blynedd rhwng hyfforddiant (o ganllaw KLS). | Isafswm o 6 awr                  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Rydw i'n darparu arweinyddiaeth sydd yn croesawu diogelu yn y sector cyhoeddus ac yn hyrwyddo gwaith aml asiantaeth drwy'r amser.</li> <li>Rydw i'n deall elfennau craidd diogelu a pham ei fod yn faes pwysig.</li> <li>Fe fyddaf yn cael fy arwain ac yn cael sicrwydd gan ymarferwyr Grŵp E am feysydd o bryder.</li> </ul> |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

[https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol?\\_gl=1\\*1fsq4xu\\*\\_ga\\*MTUxMDg0NDAXNC4xNzYyMzYyNzU3\\*\\_ga\\_NZV6WMW0HJ\\*czE3NjIzNjI3NTckbzEkZzEkdDE3NjIzNjI4MjkkajM4JGwwJGgw](https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/diogelu-rhestr/safonau-hyfforddiant-dysgu-a-datblygu-cenedlaethol?_gl=1*1fsq4xu*_ga*MTUxMDg0NDAXNC4xNzYyMzYyNzU3*_ga_NZV6WMW0HJ*czE3NjIzNjI3NTckbzEkZzEkdDE3NjIzNjI4MjkkajM4JGwwJGgw)